

Pynciau astudio – y galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch yng Nghymru

Dyddiad: 06 Chwefror 2026

Cyfeirnod: Medr/2026/04

At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru

Rhagor o wybodaeth: Hannah Falvey | ystadegauAU@medr.cymru

Crynodeb

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch (AU) yng Nghymru.



Cyflwyniad

1. Fe wnaed y darn hwn o waith mewn ymateb i gais gan Vikki Howells, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, ar ddechrau 2025, i Medr ddarparu trosolwg o'r galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch (AU) yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn crynhoi darpariaeth pynciau AU yng Nghymru ac yn cynnwys dadansoddiad o'r cofrestriadau cyffredol yn ôl grŵp pynciau yn narparyr addysg uwch (DAUwyr) Cymru, y duedd mewn cofrestriadau, cymhariaeth â'r DU, dadansoddiad rhanbarthol, dadansoddiad o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, dadansoddiad o'r llif Safon Uwch i AU, ceisiadau UCAS a derbyniadau i AU yng Nghymru a chanlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021.

Cynnwys	Rhif y dudalen
Cyflwyniad	1
Crynodeb gweithredol	2
Adran 1 – Dadansoddiad o ddata cofrestriadau myfyrwyr	5
Data cofrestriadau diweddaraf yn ôl dull a lefel astudio, grŵp pynciau a'r wlad y mae'r myfyriwr yn hanu ohoni	5
Cyfran y cofrestriadau sy'n rhan-amser	13
Tueddiadau mewn cofrestriadau	15
Tueddiadau mewn cofrestriadau amser llawn	17
Tueddiadau mewn cofrestriadau rhan-amser	19
Cymharu â'r DU	21
Y cyflenwad o bynciau a'r galw amdanynt – israddedig amser llawn	31
Dadansoddiad rhanbarthol	33
Dosbarthiad y ddarpariaeth ymhlith darparwyr	37
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfedredd yn y Gymraeg	40
Adran 2 – Llif i addysg uwch – Safon Uwch a gwblhawyd	51
Adran 3 – Ceisiadau a derbyniadau UCAS	55
Adran 4 – Canlyniadau REF 2021	64
Adran 5 – Adnoddau ychwanegol	66
Adran 6 – Meysydd ychwanegol i'w hystyried ar gyfer gwaith yn y dyfodol	66
Atodiad A – Tueddiadau mewn cofrestriadau amser llawn yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), yn ôl lefel astudio, 2014/15 i 2023/24	68
Atodiad B – Tueddiadau mewn cofrestriadau rhan-amser yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), yn ôl lefel astudio, 2014/15 i 2023/24	72

Atodiad C – Cyfanswm y cofrestriadau a newid canrannol rhwng blynyddoedd yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2014/15 i 2023/24	76
Atodiad D – Cofrestriadau yn ôl DAUwyr Cymru ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2023/24	78
Atodiad E – Safon Uwch a gwblhawyd yng Nghymru, yn ôl pwnc, 2014/15 i 2023/24	82
Atodiad F – Derbyniadau a chyfraddau derbyn UCAS ar gyfer DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2019 i 2024	88
Atodiad G – Grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) – dadansoddiad o gofrestrïadau yn DAUwyr Cymru i mewn i grwpiau pynciau lefel 3 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), gyda chanlyniadau ar gyfer unedau asesu cysylltiedig REF 2021	95
Atodiad H – Ffynonellau'r data a diffiniadau	120

Crynodeb gweithredol

- Ar y cyfan, mae dosbarthiad pynciau'r cofrestriadau AU yng Nghymru ar gyfer 2023/24 yn debyg i'r dosbarthiad pynciau ar gyfer y DU gyfan, a'r grwpiau pynciau lefel uwch â'r nifer uchaf o gofrestrïadau yw Busnes a Rheoli, Pynciau perthynol i feddygaeth a'r Gwyddorau cymdeithasol ar gyfer Cymru a'r DU.
- Ceir dosbarthiadau pynciau gwahanol ar gyfer dulliau a lefelau astudio gwahanol. Mae pynciau israddedig amser llawn poblogaidd yn cynnwys Busnes a rheoli, Y Gyfraith, Cyfrifiadura, Peirianeg, Nyrsio a bydwreigiaeth a Biowyddorau, tra bo Astudiaethau cyfunol a chyffredinol, Addysg ac addysgu, Iechyd a gofal cymdeithasol, Seicoleg a Pheirianeg yn boblogaidd ar gyfer astudio israddedig rhan-amser. Ar gyfer astudio ôl-radd amser llawn, Busnes a rheoli yw'r grŵp pynciau mwyaf poblogaidd o bell ffordd. Ar gyfer astudio ôl-radd rhan-amser, Busnes a rheoli, Addysg ac addysgu, Nyrsio a bydwreigiaeth a Pherthynol i iechyd sydd â'r mwyaf o gofrestrïadau.
- Ceir cyfrannau uwch o lawer o fyfyrwyr sy'n huanu o dramor ar gyfer darpariaeth ôl-radd, nag ar gyfer darpariaeth israddedig. Ar gyfer grwpiau pynciau â thros 1,000 o gofrestrïadau yn 2023/24, gwelir cyfrannau arbennig o fawr ar gyfer darpariaeth ôl-radd amser llawn mewn Busnes a rheoli (94%), Cyfrifiadura (84%), Peirianeg (79%) a Pherthynol i iechyd (72%).
- Mae gan rai grwpiau pynciau gyfrannau uchel o gofrestrïadau o weddill y DU, megis Ieithoedd ac astudiaethau ardal, Economeg, Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol a Gwleidyddiaeth, Ffiseg a seryddiaeth a'r Biowyddorau, mae y rhain oll a dros 70% o fyfyrwyr o weddill y DU ar gyfer darpariaeth gradd israddedig amser llawn.
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n dominyddu darpariaeth israddedig ran-amser gan roi cyfrif am dros hanner o'r holl ddarpariaeth israddedig ran-amser yn 2023/24.

Roedd darpariaeth israddedig nad yw'n radd yn fwyaf tebygol o gael ei hastudio'n rhan-amser, ac roedd rhai pynciau'n llawer mwy tebygol o gael eu hastudio'n rhan-amser, megis Astudiaethau cyfunol a chyffredinol.

7. Ar y cyfan, fe gynyddodd nifer y cofrestriadau yn DAUwyr Cymru 14% dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn is na ffigwr y DU, sef 25%. Fodd bynnag, mae cofrestriadau mewn rhai meysydd pwnc wedi gostwng yn sylweddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae meysydd sy'n achos pryder arbennig ar gyfer darpariaeth gradd israddedig amser llawn yn cynnwys leithoedd ac astudiaethau ardal, Addysg ac addysgu, Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, Gwyddorau ffisegol a Gwyddorau mathemategol, oll a gostyniadau o 20% neu fwy yn y cofrestriadau. Mewn cyferbyniad, mae cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig amser llawn mewn Meddygaeth a deintyddiaeth, Pynciau perthynol i feddygaeth, Cyfrifiadura, Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio, Gwyddorau cymdeithasol a'r Gyfraith wedi cynyddu o dros 20% neu fwy o gofrestrïadau.
8. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn, gwelwyd cynnydd cyfrannol mawr mewn cofrestriadau mewn Pynciau perthynol i feddygaeth, Gwyddorau ffisegol, Gwyddorau mathemategol a Chyfrifiadura. Gwelwyd gostyngiadau mewn leithoedd ac astudiaethau ardal ac Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol.
9. O'i gymharu â'r DU gyfan, mae gan Gymru gyfrannau is o gofrestrïadau gan fyfyrwyr tramor, a chyfrannau uwch nag y gellid eu disgwyl o ddarpariaeth ran-amser ac israddedig nad yw'n radd.
10. Mae cyfran Cymru o gofrestrïadau ymchwil ôl-radd amser llawn yn DAUwyr y DU wedi gostwng ar y cyfan rhwng 2019/20 a 2023/24, er bod cofrestriadau ymchwil ôl-radd ran-amser wedi cynyddu dros yr un cyfnod. Ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-radd amser llawn, mae'r gyfran o gofrestrïadau yn DAUwyr y DU wedi bod islaw 4% am y pedair blynedd ddiwethaf, pan fo gan gofrestrïadau ar y cyfan yn DAUwyr Cymru gyfran o ychydig dros 5%. Caiff y gyfran isel o gofrestrïadau ymchwil ôl-radd amser llawn a niferoedd bychain y myfyrwyr ymchwil ôl-radd mewn rhai grwpiau pynciau eu hadlewyrchu i ryw raddau yng nghanlyniadau REF 2021 ar gyfer Cymru.
11. Mae gan Gymru gyfran uwch na'r disgwyl o gofrestrïadau yn DAUwyr y DU mewn rhai pynciau, gan gynnwys Gwyddorau chwaraeon ac ymarfer corff, Astudiaethau cyfunol a chyffredinol, lechyd a gofal cymdeithasol a Biowyddorau.
12. Ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau, roedd nifer y myfyrwyr sy'n huanu o Gymru a oedd yn aros yng Nghymru i astudio yn fwy na niferoedd y rhai a oedd yn astudio yng ngweddill y DU. Mae'r eithriadau'n cynnwys Meddygaeth a deintyddiaeth, Gwyddorau milfeddygol, Cerddoriaeth a Chelfyddydau perfformio eraill.
13. Ceir ardaloedd lle mae'r galw am ddarpariaeth israddedig amser llawn gan fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru'n fwy na'r cyflenwad yn DAUwyr Cymru o leiaf ar gyfer myfyrwyr cartref. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwyddorau milfeddygol, Celfyddydau creadigol a dylunio, Cerddoriaeth, Celfyddydau perfformio eraill, Gwyddorau cyffredinol, cymhwysol a ffensiwn, a Deunyddiau a thechnoleg.
14. Mae darpariaeth yng Nghymru wedi'i chrynhof yn ne'r wlad, ac fe geir rhai pynciau sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd yn unig. Mae poblogaeth Cymru hefyd yn fwy

yn y de, ond nid yw'r ddarpariaeth wedi'i dosbarthu'n gyfartal yn ôl y boblogaeth leol. Mae rhai pynciau, megis Peirianeg a Deunyddiau a thechnoleg yn Ne Orllewin Cymru, wedi'u crynhoi mewn lleoliadau penodol. Mae rhai pynciau bregus wedi'u lleoli mewn darparwyr bychain megis leithoedd ac astudiaethau ardal ym Mhrifysgol Aberystwyth.

15. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth wedi'i lleoli yn y naw prifysgol yng Nghymru, a Phrifysgol Caerdydd yw'r DAU mwyaf. Mae symiau llai o ddarpariaeth ar gael mewn colegau addysg bellach a darparwyr amgen. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael naill ai'n uniongyrchol gan y coleg neu ddarparwr amgen, gyda phrifysgol neu sefydliad arall yn dyfarnu'r cymhwyster, neu mae'n cael ei chynnig yn y darparwr trwy drefniant breiniol gyda phrifysgol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd lleol ar gyfer rhai pynciau mewn ardaloedd nad oes ganddynt brifysgol ac maent yn cynnig cyfleoedd dilyniant i'r rhai sy'n astudio ar lefel 3 mewn colegau.
16. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i chrynhai mewn rhaglenni astudio israddedig amser llawn, heb ryw lawer o ddarpariaeth ar lefel ôl-radd. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i chrynhai mewn pynciau penodol hefyd megis Astudiaethau Celtaidd (fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o ystyried bod hyn yn cynnwys y Gymraeg a llenyddiaeth Cymru), Addysg ac addysgu, Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn isel ac mae cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dewis peth darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fach mewn rhai meysydd pwnc.
17. Mae'r llif i AU o blith y rhai sy'n cwblhau Safon Uwch yn adlewyrchu rhai o'r gostyngiadau a welwyd mewn cofrestriadau ar lefel israddedig. Mae gwaith yn cael ei wneud yn Medr i archwilio'r lleihad mewn dilyniant rhwng cymwysterau Uwch Gyfrannol ac A2 a allai ddarparu peth mewnwelediad i hyn.
18. Ar gyfer newydd-ddyfodiaid israddedig sy'n gwneud cais trwy UCAS, mae myfyrwyr sy'n hano o Gymru'n fwy tebygol o gael eu derbyn i DAUwyr Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau, sy'n debygol o fod i'w briodoli i'r ffaith bod myfyrwyr sy'n hano o Gymru'n ffafrio DAUwyr Cymru yn eu ceisiadau. Fodd bynnag, mae nifer y derbyniadau mewn rhai pynciau'n golygu bod rhai pynciau'n cael eu dominyddu gan newydd-ddyfodiaid o weddill y DU. Mae hyn yn cynnwys Economeg, leithoedd ac astudiaethau ardal, Biowyddorau, Cemeg a Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol lle gwelir dros 70% wedi eu derbyn o weddill y DU.
19. Roedd niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn (CagALI) a gyflwynwyd i ymarfer REF 2021 ar gyfer Cymru'n rhoi cyfrif am 3.9% o gyfanswm y DU, sy'n is nag a ddisgwylid o bosibl, ac mewn rhai meysydd pwnc roedd niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflwynwyd yn fach iawn.

Adran 1 – Dadansoddiad o ddata cofrestriadau myfyrwyr


20. Mae'r data cofrestriadau myfyrwyr diweddaraf ar gyfer darpariaeth AU mewn DAUwyr yng Nghymru sydd ar gael i gynnal y dadansoddiad hwn yn ddata ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24, a gasglwyd ar [gofnod myfyrwyr HESA](#). I Gymru, mae hyn yn cynnwys darpariaeth AU mewn prifysgolion, colegau addysg bellach (AB) a darparwyr amgen yng Nghymru¹ (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel DAUwyr). Cesglir y cofnod yn flynyddol ledled y DU.
21. Rydym wedi dadansoddi'r data yn ôl grŵp pynciau. Lle mae cofrestriad ar gwrs sydd wedi'i gofnodi yn erbyn un neu fwy nag un pwnc, gellir rhannu'r cofrestriad rhwng grwpiau. Er enghraifft, os yw myfyrwr yn astudio cwrs ar y cyd mewn mathemateg a Ffrangeg, bydd 0.5 o'r cofrestriad yn ymddangos yn erbyn mathemateg a 0.5 yn erbyn Ffrangeg. O 2019/20, mae'r pwnc astudio'n cael ei godio gan ddefnyddio codau Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) ar gofnod myfyrwyr HESA. Cyn hynny, roedd codau'r Cyd-System Codio Academiaidd (JACS) yn cael eu defnyddio i ddosbarthu pynciau. Caiff pynciau eu grwpio yn ôl lefel 1 neu 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) gan ddibynnu ar y dadansoddiad, ac ar lefel 3 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ar gyfer Atodiad G yn unig. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a HECoS ar [wefan HESA](#).
22. Dylid nodi bod darparwyr yn codio pynciau eu cyrsiau yn ôl eu meini prawf hwy eu hunain ac y gallai dau gwrs a godiwyd â'r un pwnc mewn dau ddarparwr gwahanol fod â chynnwys gwahanol ac ymagwedd wahanol.

Data cofrestriadau diweddaraf yn ôl dull a lefel astudio, grŵp pynciau a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni

23. Mae Siart 1 isod yn dangos crynodeb cyffredinol o nifer y cofrestriadau yn DAUwyr Cymru ar gyfer 2023/24, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), fel cyfran o gyfanswm y cofrestriadau. Mae tri grŵp pynciau'n rhoi cyfrif am dros 10% o'r cofrestriadau yr un, sef Busnes a rheoli, Pynciau perthynol i feddygaeth a'r Gwyddorau cymdeithasol. Mae grwpiau pynciau eraill yn rhoi cyfrif am gyfrannau bychain iawn (Gwyddorau milfeddygol, Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig a Gwyddorau mathemategol) gyda gweddill y grwpiau'n rhoi cyfrif am rhwng 2% a 7% o'r cofrestriadau.

¹ Colegau AB a gyllidwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer darpariaeth AU o 2016/17 a cholegau AB a darparwyr amgen â darpariaeth cyrsiau a ddynodwyd yn benodol o 2023/24.

Siart 1 – Cofrestriadau yn DAUwyr Cymru ym mhob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) fel cyfran o gyfanswm y cofrestriadau, 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Cyfanswm y cofrestriadau = 150,680

24. Mae Siart 2 isod yn dangos yr un wybodaeth ond yn cynnwys cyfanswm y niferoedd gyda dadansoddiad yn ôl dull a lefel astudio. Darpariaeth israddedig amser llawn sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o gofrestrïadau ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH).

Siart 2 - Cofrestriadau yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin, 2023/24




Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

25. Mae Siartiau 3 i 6 isod yn dangos nifer y cofrestriadau mewn mwy o fanylder, yn ôl dull, lefel, grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni, ar gyfer 2023/24. Mae'r nifer fach o gofrestrïadau lle nad yw'n hysbys o ba wlad y mae myfyrwyr yn hanu wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau a ddyfynnir ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfanswm wrth gyfrifo canran yn ôl y wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni.
26. Mae Siart 3 yn dangos cofrestriadau israddedig amser llawn. Busnes a rheoli oedd y grŵp pynciau mwyaf poblogaidd gyda 12,250 o gofrestrïadau, gyda Nyrsio a bydwreigiaeth, Biowyddorau, Peirianeg, Cyfrifiadura, Iechyd a gofal cymdeithasol a'r Gyfraith hefyd â thros 4,000 o gofrestrïadau yr un. Roedd cyfran y cofrestriadau a oedd yn fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n amrywio yn ôl pwnc, gyda Nyrsio a bydwreigiaeth, Gwyddorau meddygol, Gwyddorau milfeddygol, Gwyddorau cyffredinol, cymhwysol a fforensig, Astudiaethau Celtaidd, Addysg ac addysgu, Celfyddydau creadigol a dylunio a Chymdeithaseg, polisi cymdeithasol ac anthropoleg â 50% neu fwy o gofrestrïadau a oedd yn fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Roedd cyfran gyffredinol y cofrestriadau israddedig amser llawn a oedd yn fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n 39%, gyda 51% yn hanu o weddill y DU a 10% yn hanu o dramor, allan o gyfanswm poblogaeth o 83,635 o gofrestrïadau.


27. Mae Siart 4 yn dangos cofrestriadau israddedig rhan-amser. Y grŵp pynciau mwyaf poblogaidd yw Astudiaethau cyfunol a chyffredinol gyda 3,810 o gofrestriadau, gyda Seicoleg, Peirianeg, Iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg ac addysgu ill pedwar hefyd â thros 2,000 o gofrestriadau. Roedd 88% o'r cofrestriadau'n fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, allan o gyfanswm o 27,685 o gofrestriadau, gyda phob grŵp pynciau ac eithrio Meddygaeth a deintyddiaeth, Y Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu a Chelfyddydau perfformio eraill, yr oedd ganddynt ill pedwar niferoedd bychain o gofrestriadau, â 50% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.
28. Mae Siart 5 yn dangos cofrestriadau ôl-radd amser llawn. Busnes a rheoli sydd â'r mwyaf o gofrestriadau o bell, sef 9,345 (36% o'r holl gofrestriadau ôl-radd amser llawn). Cyfrifiadura sydd â'r ail nifer uchaf o gofrestriadau ar 2,495 (10%). Mae'r mwyafrif o gofrestriadau ôl-radd amser llawn (25,665 i gyd) o dramor (70%) gydag 19% yn hanu o Gymru a 12% yn hanu o weddill y DU. Busnes a rheoli oedd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr sy'n hanu o dramor ar 94%.
29. Mae Siart 6 yn dangos cofrestriadau ôl-radd rhan-amser. Roedd gan bedwar pwnc dros 1,000 o gofrestriadau, sef Nyrsio a bydwreigiaeth, Perthynol i iechyd, Busnes a rheoli ac Addysg ac addysgu. Roedd 58% o gofrestriadau'n hanu o Gymru, roedd 36% yn hanu o weddill y DU ac roedd 6% o dramor, allan o gyfanswm o 13,690 o gofrestriadau.
30. I grynhoi, darpariaeth israddedig amser llawn oedd y mwyafrif o'r cyfanswm o 150,680 o gofrestriadau yn 2023/24, sef 56%. Cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru oedd yn rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf (46%) gyda 35% o weddill y DU ac 19% o dramor. Busnes a rheoli yw'r pwnc astudio mwyaf poblogaidd (17% o gofrestriadau). Grwpiau pynciau eraill a oedd yn rhoi cyfrif am rhwng 5% a 7% o gofrestriadau yr un oedd Nyrsio a bydwreigiaeth, Seicoleg, Peirianeg, Cyfrifiadura, Iechyd a gofal cymdeithasol, Y Gyfraith ac Addysg ac addysgu.

Siart 3 - Cofrestriadau israddedig amser llawn yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni, 2023/24




Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

**Siart 4 - Cofrestriadau israddedig rhan-amser yn DAUwyr Cymru
yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin
(CAH) a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni, 2023/24**




Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

Siart 5 - Cofrestriadau ôl-radd amser llawn yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni, 2023/24



Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

Siart 6 - Cofrestriadau ôl-radd rhan-amser yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni, 2023/24




Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

Cyfran y cofrestriadau sy'n rhan-amser

31. Roedd rhai o grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a lefelau astudio a oedd â chyfrannau uchel o gofrestriadau'n astudio'n rhan-amser yn 2023/24. Ar gyfer darpariaeth gradd israddedig, roedd tua 17% o 91,165 o gofrestriadau'n astudio'n rhan-amser. Ar gyfer rhai grwpiau pynciau, roedd y gyfran yn llawer uwch. Roedd gan Seicoleg, Gwyddorau cyffredinol, cymhwysol a fforensig ac Iechyd a Gofal cymdeithasol i gyd gyfran rhwng 35% a 40% ac roedd gan Astudiaethau cyfunol a chyffredinol gyfran o 97%. Ar gyfer grwpiau pynciau eraill, dim ond cyfrannau bychain iawn oedd yn astudio'n rhan-amser, megis Meddygaeth a deintyddiaeth (0.4%), Gwyddorau meddygol (0.6%) a Chelfyddydau perfformio eraill (0.3%).
32. Ar gyfer darpariaeth israddedig nad yw'n radd, ar y cyfan, roedd y gyfran o'r cyfanswm o 20,155 o gofrestriadau a oedd yn rhan-amser yn 61%, gyda nifer o grwpiau pynciau â 100% neu bron i 100% yn astudio'n rhan-amser. Ar gyfer y grwpiau pynciau hynny â thros 200 o gofrestriadau, roedd hyn yn cynnwys Perthynol i Iechyd (91%), Astudiaethau Saesneg (95%), Ieithoedd ac Astudiaethau ardal (100%), Addysg ac addysgu (95%) ac Astudiaethau cyfunol a chyffredinol (100%). Roedd gan Feddygaeth a deintyddiaeth, Gwyddorau milfeddygol, Gwleidyddiaeth a Chelfyddydau perfformio eraill i gyd lai na 5% o gofrestriadau rhan-amser, er bod y niferoedd yn fach yn y rhan fwyaf o'r grwpiau hynny.
33. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir, ar y cyfan, roedd 36% o'r holl gofrestriadau (34,655) yn rhan-amser. Eto, roedd y gyfran yn amrywio yn ôl grŵp pynciau gyda Meddygaeth a deintyddiaeth, Ffarmacoleg, Tocsicoleg a fferylliaeth, Gwyddorau meddygol, Nyrsio a bydwreigiaeth, ac Athroniaeth ac astudiaethau crefyddol i gyd â chyfran o 75% neu fwy o gofrestriadau a oedd yn rhan-amser. Roedd gan ddau grŵp pynciau lai na 10% o gofrestriadau a oedd yn rhan-amser, sef Economeg (4.2%) a Chemeg (2.9%).
34. Ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-radd, allan o 4,705 o gofrestriadau, roedd 28% yn astudio'n rhan-amser. Roedd gan rai grwpiau pynciau gyfrannau uwch o gofrestriadau rhan-amser, gan gynnwys Addysg ac addysgu ar 78%, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 68%. Roedd gan dri grŵp pynciau lai na 5% o gofrestriadau a oedd yn rhan-amser, sef Cemeg (0.0%), Deunyddiau a thechnoleg (3.4%) a Ffiseg a Seryddiaeth (4.1%).
35. Roedd rhai o'r cyfraddau uchel o fyfyrwyr rhan-amser mewn grwpiau pynciau penodol yn deillio o gofrestriadau i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sy'n cyfrif am 37% o'r holl ddarpariaeth rhan-amser a 53% o'r holl ddarpariaeth rhan-amser israddedig.
36. Mae Siart 7 isod yn dangos canran y cofrestriadau a oedd yn rhan-amser yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a lefel astudio, yn 2023/24.

Siart 7 - Canran y cofrestriadau sy'n rhan-amser, yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin a lefel astudio 2023/24




Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

Tueddiadau mewn cofrestriadau

37. Mae Siart 8 isod yn dangos y newid canrannol mewn cofrestriadau rhwng 2014/15 a 2023/24, ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), gan gynnwys pob lefel astudio, dull astudio a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni. Nid yw Gwyddorau milfeddygol wedi'u cynnwys oherwydd niferoedd bychain. Mae'r niferoedd cysylltiedig sy'n sail i'r siart, a'r ffigyrau ar gyfer yr holl flynyddoedd rhwng 2014/15 a 2023/24, yn Atodiad C.
38. Mae'r data'n dangos bod nifer y cofrestriadau ar y cyfan wedi cynyddu 14% dros y cyfnod o 10 mlynedd. Fodd bynnag, ni welir y lefel hon o gynnydd ar draws pob grŵp pynciau. Gwelir y cynnydd mwyaf yn y Gyfraith (123%), Cyfrifiadura (81%) a'r Gwyddorau cymdeithasol (66%), tra bo'r gostyngiadau mwyaf i'w gweld mewn leithoedd ac astudiaethau ardal (38%), Addysg ac addysgu (34%) ac Astudiaethau cyfunol a chyffredinol (32%). Mae'r ffigyrau ar y cyfan ar gyfer pob grŵp pynciau'n celu'r tueddiadau mewn gwahanol gyfuniadau o ddull a lefel, ac fe archwilir y rhain mewn mwy o fanylder yn yr adran sy'n dilyn y siart.

**Siart 8 - Newid canrannol mewn cofrestriadau yn DAUwyr Cymru 2014/15 i 2023/24 yn ôl grŵp pynciau
lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin**



Ffynhonnell: cofnod myfyrwyr HESA

Tueddiadau mewn cofrestriadau amser llawn

39. Fe wnaethom fwrw golwg ar y duedd mewn cofrestriadau amser llawn yn DAUwyr Cymru yn ôl lefel astudio a grŵp pynciau ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd, 2014/15 i 2023/24. Mae siartiau ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) wedi'u cynnwys yn Atodiad A.
40. I grynhoi, y grwpiau pynciau o blith grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) sydd â'r cynnydd mwyaf mewn cofrestriadau mewn darpariaeth gradd israddedig amser llawn yw Pynciau perthynol i feddygaeth, Cyfrifiadura, Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio a'r Gyfraith. Yng ngrwpiau pynciau'r Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau mathemategol, leithoedd ac astudiaethau ardal, Addysg ac addysgu a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio y gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig amser llawn dros y cyfnod o 10 mlynedd. Ni welir yr un patrwm mewn darpariaeth israddedig ac ôl-radd, a allai gael ei egluro'n rhannol gan y cynnydd mawr a welwyd mewn darpariaeth ôl-radd amser llawn ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o dramor tra bo cofrestriadau israddedig yn fwy tebygol o fod gan fyfyrwyr cartref. Mae'r paragraffau isod yn rhoi rhagor o fanylion.
41. Gwelwyd cynnydd mewn Meddygaeth a deintyddiaeth a Phynciau perthynol i feddygaeth dros y cyfnod o 10 mlynedd, gyda chynnydd o 20% mewn cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig amser llawn mewn Meddygaeth a deintyddiaeth ac o 54% mewn Pynciau perthynol i feddygaeth. Roedd cynnydd bach mewn cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig amser llawn mewn Gwyddorau biolegol a chwaraeon o 7% gyda chynnydd mwy yn cael ei weld mewn lefelau astudio eraill. Fe wnaeth cofrestriadau mewn Seicoleg gynyddu dros y cyfnod hefyd, ar gyfer pob lefel astudio ac eithrio darpariaeth israddedig amser llawn nad yw'n radd.
42. Ar gyfer Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig, dros y cyfnod o 10 mlynedd, dim ond cofrestriadau ôl-radd a addysgir amser llawn a gynyddodd, gyda lefelau astudio eraill yn gostwng o ran niferoedd.
43. Mae cofrestriadau gwyddorau ffisegol wedi gostwng ar gyfer darpariaeth israddedig (38% ar gyfer darpariaeth gradd), tra bo cofrestriadau ôl-radd wedi cynyddu (196% ar gyfer ôl-radd a addysgir). Fe wnaeth cofrestriadau'r Gwyddorau mathemategol ar gyfer gradd israddedig amser llawn ostwng o 2016/17 i 2022/23, ond cynyddu wedyn mewn niferoedd yn 2023/24, gyda gostyngiad ar y cyfan o 19%. Fe wnaeth cofrestriadau mewn Gwyddorau mathemategol ôl-radd a addysgir amser llawn gynyddu 424%.
44. Roedd niferoedd y cofrestriadau Peirianeg a thechnoleg mewn darpariaeth israddedig amser llawn yn amrywio dros y cyfnod, gan ostwng 10% (darpariaeth gradd) a 56% (darpariaeth nad yw'n radd) ar y cyfan. Fe gynyddodd cofrestriadau ôl-radd a addysgir amser llawn 42%.
45. Fe gynyddodd cofrestriadau cyfrifiadura ar gyfer pob lefel astudio dros y cyfnod o 10 mlynedd, 34% ar gyfer gradd israddedig amser llawn, 166% ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn nad yw'n radd, 361% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn a 98% ar gyfer ymchwil ôl-radd amser llawn.

46. Fe wnaeth cofrestriadau Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio gynyddu hefyd, 59% ar gyfer gradd israddedig amser llawn a 108% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn. Fe gynyddodd cofrestriadau'r Gwyddorau cymdeithasol ar y cyfan dros y cyfnod, ar gyfer pob lefel ac eithrio ymchwil ôl-radd, er iddynt gyrraedd brig yn 2020/21 ar gyfer gradd israddedig amser llawn a darpariaeth israddedig amser llawn nad yw'n radd. Fe gynyddodd cofrestriadau'r Gyfraith yn sylweddol dros y cyfnod o 10 mlynedd, gan gynnwys 126% ar gyfer gradd israddedig amser llawn.
47. Fe wnaeth cofrestriadau Busnes a rheoli gynyddu dros y cyfnod o 10 mlynedd heblaw ar gyfer ymchwil ôl-radd amser llawn. Ar gyfer gradd israddedig amser llawn a darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn, ar ôl rhai gostyngiadau yn y blynyddoedd cynharach, fe wnaeth y ddwy gynyddu hyd at 2022/23 ac yna gostwng eto yn 2023/24. Bu cynnydd mawr mewn darpariaeth israddedig nad yw'n radd amser llawn dros y cyfnod, gyda pheth amrywiad yn ystod y cyfnod, gan roi cynnydd ar y cyfan o 385%.
48. Fe welwyd gostyngiad mawr mewn cofrestriadau leithoedd ac astudiaethau ardal dros y cyfnod o 10 mlynedd, sef 35% ar gyfer gradd israddedig amser llawn, 72% ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn nad yw'n radd a 4% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn ac ymchwil ôl-radd amser llawn. Fe wnaeth cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig amser llawn mewn Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol ostwng o 2016/17 ar ôl cynnydd o 2014/15, a hwnnw'n ostyngiad o 19% ar y cyfan.
49. Mae cofrestriadau addysg ac addysgu wedi gostwng dros y cyfnod o 10 mlynedd ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, a hynny 50% ar gyfer darpariaeth gradd a 32% ar gyfer darpariaeth nad yw'n radd. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir amser llawn, roedd nifer y cofrestriadau tua'r un fath yn 2014/15 a 2023/24, gyda rhywfaint o ostyngiad hyd at 2018/19 cyn cynyddu yn 2020/21.
50. Gwelwyd patrwm gweithgarwch anarferol mewn cofrestriadau ar gyfer Astudiaethau cyfunol a chyffredinol. Y rheswm dros hyn yw bod cwrs israddedig amser llawn penodol nad yw'n radd wedi cael ei godio fel Astudiaethau cyfunol a chyffredinol yn 2017/18 a 2018/19 yn unig.
51. Ar gyfer Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu, roedd cofrestriadau israddedig amser llawn yn weddol sefydlog ar draws y cyfnod o 10 mlynedd tra bo cofrestriadau ôl-radd a addysgir amser llawn wedi cynyddu 68% ar y cyfan.
52. Mewn cofrestriadau israddedig amser llawn mewn Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, fe welwyd gostyngiad ar draws y cyfnod o 10 mlynedd, a hwythau wedi gostwng 32% ar gyfer darpariaeth gradd a 31% ar gyfer darpariaeth nad yw'n radd. Fe gynyddodd cofrestriadau ôl-radd a addysgir amser llawn (50%) a chofrestriadau ymchwil ôl-radd amser llawn (96%).
53. Ar gyfer cofrestriadau gradd israddedig amser llawn sy'n astudio Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol, roedd peth amrywiad dros y cyfnod o 10 mlynedd, gyda chofrestriadau'n cynyddu hyd at 2016/17, yna'n gostwng hyd at 2020/21 cyn cynyddu eto hyd at 2023/24. Ar y cyfan, 4% oedd y gostyngiad. Fe gynyddodd darpariaeth ôl-radd a addysgir ac ymchwil ôl-radd amser llawn dros y cyfnod, a'r cynnydd hwnnw'n 16% a 62% yn y drefn honno.

Tueddiadau mewn cofrestriadau rhan-amser

54. Cynhaliwyd dadansoddiad tebyg ar gyfer cofrestriadau rhan-amser yn DAUwyr Cymru. Mae siartiau ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) wedi'u cynnwys yn Atodiad B.
55. I grynhoi, y grwpiau pynciau hynny â'r cynnydd mwyaf mewn cofrestriadau mewn darpariaeth gradd israddedig ran-amser ar draws y cyfnod o ddeng mlynedd oedd Gwyddorau cymdeithasol a'r Gyfraith. Gwelwyd cynnydd mawr yn y pynciau hynny, ac mewn Seicoleg a Chyfrifiadura, yn achos darpariaeth israddedig nad yw'n radd hefyd. Ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, gwelwyd gostyngiadau mawr ar gyfer Astudiaethau cyfunol a chyffredinol lle mae darpariaeth gradd a darpariaeth nad yw'n radd yn y cwestiwn, ac fe brofodd darpariaeth gradd ostyngiadau mawr mewn Pynciau perthynol i iechyd, Peirianeg a thechnoleg, Busnes a rheoli, Addysg ac addysgu ac leithoedd ac astudiaethau ardal hefyd. Gwelwyd cynnydd mawr ar gyfer Pynciau perthynol i feddygaeth, Seicoleg, Cyfrifiadura a'r Gwyddorau cymdeithasol ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser, ond roedd gostyngiadau mewn Meddygaeth a deintyddiaeth ac Addysg ac addysgu. Roedd niferoedd y cofrestriadau'n fach mewn llawer o'r grwpiau pynciau ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser, er y gwelwyd cynnydd canrannol mawr mewn Busnes a rheoli, Addysg ac addysgu ac Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol.
56. Fe wnaeth cofrestriadau mewn Meddygaeth a deintyddiaeth ostwng dros y cyfnod o 10 mlynedd. Roedd y rhan fwyaf o'r cofrestriadau rhan-amser mewn Meddygaeth a deintyddiaeth mewn darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser ac fe ostyngodd hyn 61%. Gwelwyd cynnydd dros y cyfnod o 10 mlynedd mewn Pynciau perthynol i feddygaeth mewn darpariaeth gradd israddedig ran-amser (117%) a darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser (65%), a welwyd mewn darpariaeth amser llawn hefyd, ond fe welwyd gostyngiad mewn darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd (47%) a darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser (42%).
57. Fe wnaeth cofrestriadau yn y Gwyddorau biolegol a chwaraeon gynyddu ar gyfer pob lefel astudio gan gynnwys cynnydd o 96% mewn darpariaeth gradd israddedig. Fe gynyddodd cofrestriadau mewn Seicoleg dros y cyfnod hefyd, ar gyfer pob lefel ac eithrio ymchwil ôl-radd ran-amser. Fe brofodd cofrestriadau mewn darpariaeth gradd israddedig ran-amser gynnydd arbennig o fawr, sef 190%, o 785 i 2,285 o gofrestrïadau.
58. Ychydig iawn o gofrestrïadau rhan-amser oedd yn y Gwyddorau milfeddygol ac felly nid yw'r grŵp pynciau wedi cael ei gynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad o ddarpariaeth ran-amser a gyflwynir yn ôl grŵp pynciau. Ar gyfer Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig, dros y cyfnod o 10 mlynedd, fe gynyddodd darpariaeth gradd israddedig ran-amser a darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser tra bo darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd wedi gostwng.
59. Mae cofrestriadau'r Gwyddorau ffisegol wedi cynyddu dros y cyfnod ar gyfer pob lefel ac eithrio ymchwil ôl-radd, a oedd â niferoedd bychain o gofrestrïadau. Roedd y duedd yn wahanol i gofrestrïadau israddedig amser llawn yn yr ystyr bod cofrestriadau israddedig rhan-amser wedi cynyddu ar gyfer darpariaeth gradd a darpariaeth nad yw'n radd. Roedd hyn yr un fath ar gyfer y Gwyddorau mathemategol.


60. Fe wnaeth cofrestriadau Peirianeg a thechnoleg mewn darpariaeth gradd israddedig ran-amser gynyddu 35% dros y cyfnod; fodd bynnag, fe wnaeth cofrestriadau mewn darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd ostwng 48%. Fe wnaeth darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser ostwng 9% ac fe wnaeth darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser gynyddu 10%.
61. Fe wnaeth cofrestriadau Cyfrifiadura gynyddu ar gyfer pob lefel astudio ac eithrio darpariaeth israddedig nad yw'n radd (gostyngiad o 36%), gyda chynnydd o 181% ar gyfer darpariaeth gradd israddedig ran-amser, cynnydd o 400% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser a chynnydd o 55% ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser.
62. Fe wnaeth cofrestriadau Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio ostwng ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd (36%) a darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser (55%) ond fe gynyddodd ar gyfer darpariaeth gradd israddedig ran-amser (80%) a darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser (22%). Fe gynyddodd cofrestriadau'r Gwyddorau cymdeithasol ar y cyfan dros y cyfnod, ar gyfer pob lefel, a hwnnw'n gynnydd o 152% ar gyfer darpariaeth gradd israddedig ran-amser, 230% ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd, 138% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser a 49% ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser. Fe gynyddodd cofrestriadau'r Gyfraith yn sylweddol dros y cyfnod o 10 mlynedd hefyd ar gyfer darpariaeth gradd israddedig ran-amser (156%), darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd (793%) a darpariaeth ymchwil ôl-radd ran-amser (171%).
63. Bu cynnydd mawr mewn cofrestriadau gradd israddedig ran-amser (130%) ar gyfer Busnes a rheoli ond gostyngiadau mewn cofrestriadau ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd a darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser. Gwelwyd cynnydd mewn ymchwil ôl-radd ran-amser o 45%.
64. Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau leithoedd ac astudiaethau ardal yn yr holl lefelau astudio rhan-amser dros y cyfnod o 10 mlynedd, o 4% ar gyfer gradd israddedig ran-amser, 64% ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd, 2% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser a 24% ar gyfer ymchwil ôl-radd ran-amser. Ar gyfer Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol, fe gynyddodd cofrestriadau israddedig rhan-amser ar gyfer yr holl lefelau israddedig rhan-amser (25% ar gyfer gradd, 136% ar gyfer darpariaeth israddedig nad yw'n radd), ac fe wnaethant gynyddu hefyd ar gyfer ymchwil ôl-radd ran-amser (83%) ond gostwng ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser (5%).
65. Fe ostyngodd cofrestriadau Addysg ac addysgu dros y cyfnod o 10 mlynedd ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd (38%) a darpariaeth ôl-radd a addysgir (39%). Fe gynyddodd darpariaeth gradd israddedig ran-amser (40%) a darpariaeth ymchwil ôl-radd (99%). Fe ostyngodd cofrestriadau Astudiaethau cyfunol a chyffredinol ar gyfer pob lefel ac eithrio ymchwil ôl-radd ran-amser, a oedd â niferoedd isel o gofrestrïadau yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Fe ostyngodd cofrestriadau gradd israddedig ran-amser 29%, fe ostyngodd cofrestriadau darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd 37% ac fe ostyngodd darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser 55%.

66. Ar gyfer Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu, roedd niferoedd y cofrestriadau rhan-amser yn weddol fach ym mhob lefel ac eithrio darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser lle gwelwyd cynnydd o 21%. Dim ond mewn cofrestriadau ar gyfer gradd israddedig ran-amser mewn Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio y gwelwyd cynnydd ar draws y cyfnod o 10 mlynedd, a hwnnw'n gynnydd o 46%, gyda'r lefelau astudio eraill yn dangos gostyngiad.
67. Fe ddangosodd yr holl lefelau astudio rhan-amser gynnydd yn y cofrestriadau mewn Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol, gyda chynnydd o 180% mewn gradd israddedig ran-amser, cynnydd o 893% ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser nad yw'n radd (er mai ar niferoedd bychain yr oedd hynny) a chynnydd o 694% ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser. Fe gafodd ymchwil ôl-radd ran-amser gynnydd o 45%, eto ar niferoedd bychain.

Cymharu â'r DU


68. I roi rhywfaint o gyd-destun o ran sut y mae darparwyr Cymru'n cymharu â'r darlun o addysg uwch ledled y DU, mae'r siart isod yn dangos, ar gyfer darparwyr yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon â 200 neu fwy o gofrestriadau cyfwerth ag amser llawn (CagALI) yn 2023/24, beth yw safle darparwyr yng Nghymru pan fo darparwyr yn cael eu trefnu yn ôl cyfanswm y cofrestriadau cyfwerth ag amser llawn. Nid yw'r Alban wedi'i chynnwys am bod CagALI yn cael ei gofnodi'n wahanol. Caerdydd yw'r brifysgol fwyaf yng Nghymru o bell, gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe'n dilyn wedyn o ran maint, a hwythau'n meddu ar nifer debyg o gofrestriadau CagALI yr un. Mae gweddill y prifysgolion yng Nghymru'n gymharol fach a dim ond dau o'r colegau a darparwyr amgen sydd â 200 neu fwy o gofrestriadau CagALI wedi'u cofnodi ar gofnod myfyrwyr HESA.

Siart 9 - Cofrestriadau cyfwerth ag amser llawn (CagALI) yn DAUwyr Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon â ≥ 200 CagALI, 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

69. Mae Siart 10 isod yn dangos dosbarthiad pynciau ar gyfer Cymru ac ar gyfer y DU gyfan, wedi'u trefnu yn ôl nifer y cofrestriadau yn DAUwyr Cymru. Roedd dosbarthiad pynciau yng Nghymru'n debyg i ddosbarthiad pynciau yn y DU gyfan, gyda thri grŵp pynciau mwyaf lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) yr un fath, sef Busnes a rheoli, Pynciau perthynol i feddygaeth a'r Gwyddorau cymdeithasol. Ceir rhai gwahaniaethau, er enghraifft mae gan Gymru gyfran gymharol uwch o gofrestriadau Gwyddorau biolegol a chwaraeon a chyfran gymharol is o gofrestriadau Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, na'r DU.




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

70. Wrth edrych ar y newid mewn cofrestriadau rhwng 2014/15 a 2023/24 ar gyfer Cymru o'i gymharu â'r DU (gweler Siart 8 uchod ar gyfer y newid yng Nghymru yn unig), ceir rhai gwahaniaethau. Ar y cyfan, roedd y cynnydd mewn cofrestriadau ar gyfer Cymru'n 14%, ar gyfer y DU roedd yn 25%. Dangosir y newid ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) yn y siart isod. Y grŵp pynciau â'r cynnydd mwyaf ar gyfer Cymru oedd Y Gyfraith (123%), ac ar gyfer y DU yr un â'r cynnydd mwyaf oedd Cyfrifiadura (101%), a oedd â'r ail gynnydd mwyaf yng Nghymru (81%). Roedd y tri grŵp pynciau â'r gostyngiad mwyaf mewn cofrestriadau yr un fath ar gyfer Cymru a'r DU, sef Astudiaethau

cyfunol a chyffredinol (32% ar gyfer Cymru, 22% ar gyfer y DU), Addysg ac addysgu (34% ar gyfer Cymru, 27% ar gyfer y DU) ac leithoedd ac astudiaethau ardal (38% ar gyfer Cymru, 29% ar gyfer y DU), gyda'r gostyngiadau ar gyfer Cymru'n fwy ym mhob un o'r tri grŵp. Nid yw Gwyddorau Milfeddygol wedi ei ddangos am bod y niferoedd Cymru yn 2014/15 yn fach iawn.


Siart 11 - Newid canrannol mewn cofrestriadau rhwng 2014/15 a 2023/24 yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) yn DAUwyr Cymru a'r DU



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA a Chofnod amgen myfyrwyr HESA

71. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, bu gan Gymru gyfran sydd wedi bod rhwng 5.2% a 5.4% o gyfanswm nifer y cofrestriadau yn y DU. Mae'r gyfran yn amrywio yn ôl dull a lefel astudio, gyda Chymru'n meddu ar gyfran fwy nag y gellid ei disgwyl o ddarpariaeth israddedig nad yw'n radd, a chyda darpariaeth gradd israddedig ran-amser yn cynyddu ei chyfran dros y cyfnod o bum mlynedd tra bo'r gyfran ar gyfer gradd israddedig amser llawn wedi gostwng. Mae'r siart isod yn dangos y duedd ar gyfer Cymru yn ôl dull a lefel astudio.


Siart 12 - Cyfran DAUwyr Cymru o gofrestriadau yn DAUwyr y DU yn ôl dull a lefel astudio, rhwng 2019/20 a 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA a Chofnod amgen myfyrwyr HESA

72. Roedd gwahaniaeth hefyd yng nghymysgedd hunaniaeth myfyrwyr darparwyr Cymru a'r DU yn 2023/24, gyda'r DU gyfan yn cynnwys cyfran uwch o fyfyrwyr o dramor - 19% yng Nghymru, o'i gymharu â 25% yn y DU.
73. O fewn pob dull a lefel, roedd cyfran y cofrestriadau yn DAUwyr y DU a oedd yn astudio yn DAUwyr Cymru yn amrywio yn ôl grŵp pynciau. Mae'r siart isod yn dangos y dosbarthiad yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ar gyfer pob cofrestriad yn 2023/24. Ar gyfer rhai grwpiau pynciau, mae hyn fel y gellid ei ddisgwyl, er enghraifft nid oedd ysgol filfeddygol yng Nghymru yn y cyfnod a ddadansoddir, ac mae'r siart yn dangos bod gan Gymru'r gyfran fwyaf o gyfanswm cofrestriadau'r DU mewn Astudiaethau Celtaidd ar 39.5%. Mae pynciau eraill a oedd â chyfrannau uwch na chyfran Cymru ar y cyfan o 5.2% yn 2023/24 yn cynnwys Gwyddorau chwaraeon ac ymarfer corff, Astudiaethau cyfunol a chyffredinol, lechyd a gofal cymdeithasol a Biowyddorau. Gwyddorau milfeddygol, Economeg a Deunyddiau a thechnoleg oedd â'r chyfrannau isaf.

**Siart 13 - cofrestriadau yn DAUwyr Cymru fel cyfran o
gofrestriadau yn DAUwyr y DU, yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr
Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2023/24**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

74. Mae'r ddwy siart nesaf yn bwrw golwg ar y pynciau y gwnaeth myfyrwyr sy'n hanu o Gymru eu hastudio yn y DU yn 2023/24, ac yn cymharu dewisiadau pynciau'r rhai a oedd yn astudio yn narparwyr Cymru â dewisiadau pynciau'r rhai a oedd yn astudio mewn darparwyr mewn gwledydd eraill yn y DU. Mae'r siart gyntaf yn dangos y niferoedd ym mhob un o grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu

Cyffredin (CAH), ar gyfer pob dull a lefel astudio, ac mae'r ail siart yn dangos y darlun ar gyfer israddedig amser llawn yn unig gan mai hwy yw'r grŵp mwyaf a'r grŵp sydd fwyaf tebygol o astudio'r tu allan i Gymru (44%). Y ffigurau ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn ac ôl-radd rhan-amser a oedd yn astudio'r tu allan i Gymru oedd 8%, 38% a 36% yn y drefn honno. Mae'r ddwy siart wedi'u trefnu yn ôl y grwpiau pynciau â'r cyfanswm mwyaf o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.


75. Ar gyfer y darlun ar y cyfan, ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau pynciau, yn enwedig y rhai â nifer fawr o gofrestrïadau, mae'r mwyafrif o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n astudio yng Nghymru. Mae'r grwpiau pynciau hynny lle mae myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n fwy tebygol o astudio'r tu allan i Gymru'n cynnwys Meddygaeth a deintyddiaeth, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau perfformio eraill.
76. Ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, roedd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n fwy tebygol o astudio'r tu allan i Gymru mewn mwy na hanner grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), gyda Cherddoriaeth a Chelfyddydau perfformio eraill yn meddu ar nifer nodedig o gofrestrïadau a chyfran nodedig yn astudio'r tu allan i Gymru.

Siart 14 - Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl lleoliad astudio yn y DU, 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Siart 15 - Myfyrwyr israddedig amser llawn sy'n hanu o Gymru yn ôl lleoliad astudio yn y DU, 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Y cyflenwad o bynciau a'r galw amdanynt – israddedig amser llawn

77. Roedd y dadansoddiad hwn yn amcanu at fwrw golwg ar y cyflenwad o leoedd israddedig amser llawn a'r galw amdanynt ar gyfer Cymru. Caiff y cyflenwad ei fesur fel lleoedd a lenwir gan fyfyrwyr cartref yn DAUwyr Cymru ac fe gaiff y galw ei fesur fel myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n llenwi lle unrhyw le yn y DU. Wrth wneud hyn rydym wedi tybio mai'r lleoedd a lenwir gan fyfyrwyr cartref yng Nghymru fyddai'r lleoedd a allai fod ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis aros yng Nghymru. Y diffiniad o fyfyrwyr cartref yw'r rhai y tybir eu bod yn gymwys i dalu ffioedd cartref. Dylid nodi bod y dadansoddiad hwn yn syml yn bwrw golwg ar nifer y lleoedd a allai fod ar gael mewn grŵp pynciau pe bai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n dymuno astudio yng Nghymru ac nad yw'n ystyried a fyddai union ddewis y myfyriwr o gwrs neu fath o ddarparwr ar gael.
78. Rydym wedi gwneud y dadansoddiad hwn yn ôl grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH). Ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau, roedd y cyflenwad, h.y. nifer y lleoedd yn DAUwyr Cymru â chofrestriadau cartref, yn fwy na'r galw, h.y. cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a oedd yn astudio unrhyw le yn y DU, neu'n debyg iddo.
79. Ar gyfer rhai pynciau roedd mwy o alw nag o gyflenwad. Ar gyfer darpariaeth gradd gellir gweld galw mwy na'r cyflenwad ar gyfer Gwyddorau milfeddygol, heb ryw lawer o ddarpariaeth o gwbl yng Nghymru. Dylid nodi nad yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y ddarpariaeth Gwyddor Filfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth a gyflwynir mewn cydweithrediad gyda'r Coleg Milfeddygol Brenhinol (RVC) gan bod y ddarpariaeth yn cael ei dychwelyd yng nghofnod myfyrwyr HESA gan RVC.
80. Mae gan y tri phwnc yn y grŵp Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, Celfyddydau creadigol a dylunio, Cerddoriaeth a Chelfyddydau perfformio eraill i gyd niferoedd mawr o alw mwy na'r cyflenwad, ar gyfer darpariaeth gradd a darpariaeth nad yw'n radd. Mae grwpiau pynciau eraill â galw mwy-na'r-cyflenwad uchel ar gyfer darpariaeth gradd yn cynnwys Gwyddorau cyffredinol, cymhwysol a fforensig ac Addysg ac addysgu.

Tabl 1: Cofrestriadau israddedig amser llawn 2023/24 – y cyflenwad a'r galw

Grŵp Pynciau Iefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH)	Cofrestriadau gradd israddedig				Cofrestriadau heb fod yn radd israddedig			
	Galw (Cofrestriadau gan Fyfrwyr sy'n Hanu o Gymru)	Cyflenwad (cofrestrïad au gan fyfrwyr cartref yn DAUwyr Cymru)	Lle Mae'r Galw'n Fwy Na'r Cyflenwad		Galw (Cofrestriadau gan Fyfrwyr sy'n Hanu o Gymru)	Cyflenwad (cofrestrïad au gan fyfrwyr cartref yn DAUwyr Cymru)	Lle Mae'r Galw'n Fwy Na'r Cyflenwad	
			Galw Mwy Na'r Cyflenwad	Galw Mwy Na'r Cyflenwad fel Cyfran o'r Cyfanswm			Galw Mwy Na'r Cyflenwad	Galw Mwy Na'r Cyflenwad fel Cyfran o'r Cyfanswm
Meddygaeth A Deintyddiaeth	2,255	2,390	0	0%	20	25	0	-
Ffarmacoleg, Tocsicoleg A Fferylliaeth	720	910	0	0%	0	0	0	-
Nyrsio a Bydwreigiaeth	4,195	4,180	15	0%	170	165	0	1%
Gwyddorau Meddygol	1,405	1,390	15	1%	15	10	5	-
Perthynol i Iechyd	2,155	2,790	0	0%	60	40	20	34%
Biowyddorau	1,835	4,275	0	0%	15	10	5	-
Gwyddorau Chwaraeon Ac Ymarfer Corff	2,045	3,250	0	0%	155	605	0	0%
Seicoleg	2,960	3,670	0	0%	40	55	0	0%
Gwyddorau Milfeddygol	395	10	385	98%	115	145	0	0%
Amaeth, Bwyd Ac Astudiaethau Cysylltiedig	500	475	25	5%	150	135	15	11%
Ffiseg a Seryddiaeth	605	735	0	0%	0	0	0	-
Cemeg	365	625	0	0%	0	0	0	-
Gwyddorau Cyffredinol, Cymhwysol A Fforensig	375	235	140	38%	0	0	0	-
Gwyddorau Mathemategol	695	900	0	0%	0	0	0	-
Peirianeg	2,610	3,970	0	0%	85	90	0	0%
Deunyddiau a Thechnoleg	145	120	25	16%	35	0	35	100%
Cyfrifiadura	2,695	3,850	0	0%	185	625	0	0%
Pensaernïaeth, Adeiladu A Chynllunio	795	1,040	0	0%	45	35	15	30%
Cymdeithaseg, Polisi Cymdeithasol Ac Anthropoleg Economeg	2,400	2,390	15	1%	95	50	45	46%
Gwleidyddiaeth	590	960	0	0%	0	0	0	-
Iechyd A Gofal Cymdeithasol	645	1,355	0	0%	30	30	0	0%
Y Gyfraith	1,450	1,965	0	0%	565	1,985	0	0%
Busnes A Rheoli	3,570	4,990	0	0%	290	350	0	0%
Astudiaethau Saesneg	4,910	7,555	0	0%	665	2,635	0	0%
Astudiaethau Celtaidd	1,105	1,650	0	0%	0	0	0	-
Ieithoedd Ac Astudiaethau Ardal	145	150	0	0%	60	60	0	0%
Hanes Ac Archeoleg	480	820	0	0%	0	0	0	-
Athroniaeth Ac Astudiaethau Crefyddol	1,245	1,955	0	0%	0	0	0	-
Addysg Ac Addysgu	375	500	0	0%	15	15	0	-
Astudiaethau Cyfunol A Chyffredinol	2,065	1,795	265	13%	115	125	0	0%
Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth A Chyfathrebu	100	35	65	64%	0	0	0	-
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	1,110	1,345	0	0%	25	20	5	13%
Cerddoriaeth	3,045	2,615	430	14%	165	195	0	0%
Celfyddydau Perfformio Eraill	1,065	810	255	24%	70	45	25	36%
Daearyddiaeth, Astudiaethau'r Ddaear Ac Amgylcheddol	900	650	250	28%	60	30	30	50%
Cyfanswm	1,125	2,180	0	0%	10	10	0	-
	53,075	68,520	1,885	3.6%	3,260	7,495	205	6.3%

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Dadansoddiad rhanbarthol

81. Nid yw'r holl ddarpariaeth pynciau ar gael mewn ffordd unffurf ledled Cymru, ac mae cyfran fawr o boblogaeth Cymru wedi'i lleoli yn ne'r wlad. Fe gynhaliom ni ddadansoddiad rhanbarthol o ble'r oedd darpariaeth yn cael ei chyflwyno. Wrth wneud hyn, cafodd darpariaeth a oedd wedi'i lleoli mewn darparwyr breiniol ei chyfrif yn y lleoliad breiniol, cafodd darpariaeth ei chyfrif ar y campws yr oedd y myfyrwr yn astudio arno a chafodd dysgwyr o bell eu cyfrif yn lleoliad cod post eu cartref.
82. Rydym wedi rhannu Cymru'n chwe rhanbarth at ddibenion y dadansoddiad hwn. Caiff y categorïau a'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddynt eu hamlinellu isod. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys yn 'Dysgu o bell yn y rhanbarth'. Ar gyfer y colegau AB a darparwyr amgen, mae darpariaeth 'uniongyrchol' yn ddarpariaeth y maent hwy'n ei dychwelyd eu hunain ar gofnod myfyrwyr HESA, ac mae darpariaeth 'freiniol' yn ddarpariaeth trwy drefniant breinio gyda phrifysgol yng Nghymru a ddychwelir gan y brifysgol ar gofnod myfyrwyr HESA. Ceir hefyd rai darparwyr preifat sy'n cyflwyno darpariaeth trwy drefniadau breiniol gyda phrifysgolion. Nid yw'r rhain wedi'u rhestru yma ond byddant yn cael eu cyfrif yn y rhanbarth y mae'r darparwr preifat wedi'i leoli ynddo. Mae'r cofrestriadau hynny sydd wedi'u lleoli'r tu allan i Gymru yn gofrestrïadau yn DAUwyr Cymru nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru ar gyfer astudio.

Tabl 2 – Awdurdodau unedol a darparwyr sydd wedi'u cynnwys ym mhob categori rhanbarth

Categori rhanbarth	Awdurdodau unedol sydd wedi'u cynnwys	Darparwyr sydd wedi'u cynnwys
Caerdydd	Caerdydd	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd Campysau Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd a CBCDC Campysau PCYDDS yng Nghaerdydd Darpariaeth uniongyrchol a breiniol campws Caerdydd CCaF Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Athrofa Padarn Sant Dysgu o bell yn y rhanbarth (Y Brifysgol Agored a darparwyr eraill)
De Ddwyrain Cymru (heb gynnwys Caerdydd)	Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd	Campysau Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest, Casnewydd, Glyntaf a Choleg Merthyr Tudful Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Coleg Gwent Darpariaeth freiniol Coleg Penybont Darpariaeth freiniol Coleg Y Cymoedd Darpariaeth uniongyrchol Ysgol Ddiwinyddiaeth Union

Categori rhanbarth	Awdurdodau unedol sydd wedi'u cynnwys	Darparwyr sydd wedi'u cynnwys
		Darpariaeth uniongyrchol a breiniol CCaF ar gampws y Bari Dysgu o bell yn y rhanbarth (Y Brifysgol Agored a darparwyr eraill)
De Orllewin Cymru	Sir Gâr, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	Prifysgol Abertawe Campysau PCYDDS yn Abertawe, Caerfyrddin a Choleg Sir Gâr Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Grŵp Colegau NPTC ar gampysau Castell-nedd Port Talbot Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Coleg Gŵyr Abertawe Darpariaeth freiniol Coleg Sir Benfro Dysgu o bell yn y rhanbarth (Y Brifysgol Agored a darparwyr eraill)
Canolbarth Cymru	Powys a Cheredigion	Campws PCYDDS yn Llanbed Prifysgol Aberystwyth Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Grŵp Colegau NPTC ar gampysau Powys Darpariaeth freiniol Coleg y Mynydd Du Dysgu o bell yn y rhanbarth (Y Brifysgol Agored a darparwyr eraill)
Gogledd Cymru	Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam.	Prifysgol Bangor Prifysgol Wrecsam Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Grŵp Llandrillo Menai Darpariaeth uniongyrchol a breiniol Coleg Cambria Y Ganolfan Technoleg Amgen Dysgu o bell yn y rhanbarth (Y Brifysgol Agored a darparwyr eraill)
Y Tu Allan i Gymru	Y DU, heb gynnwys Cymru	Campysau PCYDDS yn Llundain a Birmingham Darpariaeth freiniol sydd wedi'i lleoli'r tu allan i Gymru yn y DU Dysgu o bell sydd wedi'i lleoli'r tu allan i Gymru yn y DU

CBCDC = Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, PCYDDS = Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, CCaF = Coleg Caerdydd a'r Fro

83. Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad cyffredinol cofrestriadau fesul rhanbarth, gyda phoblogaeth y rhanbarth hwnnw yn y grŵp oedran 16-64 i roi rhywfaint o gyd-destun syml. Mae'n dangos bod gan Gaerdydd tua thraean o'r holl gofrestriadau ar 33%, neu 36% os nad yw cofrestriadau sydd wedi'u lleoli'r tu allan i Gymru'n cael

eu cynnwys, ac mai De Orllewin Cymru yw'r rhanbarth nesaf o ran canran y cofrestriadau ar 22%, neu 24% os yw cofrestriadau'r tu allan i Gymru'n cael eu diystyru. Mae De Ddwyrain Cymru ar y cyfan, os yw Caerdydd yn cael ei chynnwys, yn rhoi cyfrif am 54% o'r holl gofrestriadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r gyfran o'r boblogaeth 16-64 yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynnwys Caerdydd, yn 50%, ond mae rhaniad y boblogaeth rhwng Caerdydd a gweddill De Ddwyrain Cymru'n wahanol i nifer y cofrestriadau gyda chrynodiad uwch o lawer o'r boblogaeth y tu allan i Gaerdydd.

Tabl 3 – Nifer a chanran y cofrestriadau ym mhob rhanbarth, 2023/24, gydag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer yr oedrannau 16-64, 2024

Rhanbarth	Nifer y cofrestriad au	Canran o'r holl gofrestriad au	Canran o'r holl gofrestriad au sydd wedi'u lleoli yng Nghymru	Amcangyfr if poblogaeth canol blwyddyn 2024 - oedrannau 16-64	Canran o'r boblogaeth 16-64
Caerdydd	49,915	33%	36%	260,984	13%
De Ddwyrain Cymru (heb gynnwys Caerdydd)	24,615	16%	18%	726,457	37%
De Orllewin Cymru	33,340	22%	24%	428,327	22%
Canolbarth Cymru	9,100	6%	7%	119,134	6%
Gogledd Cymru	22,180	15%	16%	412,814	21%
Y Tu Allan i Gymru/ Anhysbys	11,525	8%			
Cyfanswm	150,680	100%	100%	1,947,716	100%


Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA, Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol

84. Mae'r siart isod yn bwrw golwg ar y dosbarthiad rhanbarthol yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ar gyfer cyfanswm y cofrestriadau, gyda phob dull a lefel wedi'u cyfuno, ar gyfer 2023/24.
85. Ar y lefel manylder a ddangosir yn y siart, mae rhai grwpiau pynciau'n cael eu darparu'n bennaf mewn ardaloedd penodol. Nid yw hyn yn syndod gan y byddai disgwyl i arbenigeddau penodol fod wedi'u crynhoi mewn darparwyr penodol, megis Meddygaeth a deintyddiaeth ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe ac, o 2024/25, ym Mhrifysgol Bangor.
86. Mae gan Feddygaeth a deintyddiaeth, Ffarmacoleg, tocsicoleg a fferylliaeth, Cemeg, Gwyddorau mathemategol, Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio, Economeg, Gwleidyddiaeth, Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu, Cerddoriaeth a Chelfyddydau perfformio eraill i gyd dros 50% o'r cofrestriadau yng Nghaerdydd. Roedd gan Dde Ddwyrain Cymru 40% neu fwy o'r cofrestriadau Gwyddorau cyffredinol, cymhwysol a fforensig, bron i draean o'r rhai Nyrsio a bydwreigiaeth, a'r mwyafrif o'r nifer fach o gofrestriadau mewn Gwyddorau milfeddygol. Roedd gan Dde Orllewin Cymru dros 40% o'r cofrestriadau Peirianeg

a Deunyddiau a thechnoleg ac roedd gan Ganolbarth Cymru a Gogledd Cymru gyda'i gilydd oddeutu 62% o'r cofrestriadau mewn Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig, y gellid ei ddisgwyl o bosibl o ystyried natur fwy gwledig y rhanbarthau hynny. Roedd gan Ganolbarth Cymru hefyd 22% o'r cofrestriadau mewn Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol.

87. Mae mwy na 10% o'r cofrestriadau mewn Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig, lechyd a gofal cymdeithasol, Y Gyfraith, Busnes a rheoli, leithoedd ac astudiaethau ardal, Athroniaeth ac astudiaethau crefyddol a'r Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu'n digwydd y tu allan i Gymru.

Siart 16 - Cyfran y cofrestriadau yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ym mhob rhanbarth, 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Dosbarthiad y ddarpariaeth ymhlith darparwyr

88. Mae'r adran nesaf hon yn ystyried pa ddarparwyr sy'n cynnig pa bynciau. Mae hyn yn wahanol i'r dadansoddiad rhanbarthol yn yr ystyr bod gan rai darparwyr gampysau ledled Cymru a'r tu allan i Gymru yn y DU a bod peth darpariaeth yn cael

ei chynnig mewn partner breiniol neu drwy ddysgu o bell. At ddibenion y dadansoddiad hwn, oherwydd y niferoedd bychain mewn rhai pynciau, mae darpariaeth mewn colegau addysg bellach a darparwyr amgen wedi cael ei chynnwys mewn un categori.

89. Mae'r siart isod yn dangos, ar gyfer pob dull, lefel a phwnc astudio, nifer y cofrestriadau yn ôl DAU yng Nghymru. Mae'r siart yn dangos mai Prifysgol Caerdydd sydd â'r nifer fwyaf o gofrestriadau ar 33,020, gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe yn dilyn wedyn, a chanddynt ill dwy dros 20,000 o gofrestriadau yr un. Y brifysgol â'r nifer leiaf o gofrestriadau yw Prifysgol Aberystwyth gydag 8,320 o gofrestriadau. Rhyngddynt, mae gan y colegau addysg bellach a'r darparwyr amgen 2,070 o gofrestriadau. Mae Atodiad D yn dangos graff tebyg ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH).



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

90. Prifysgol Caerdydd sydd â'r nifer fwyaf o gofrestriadau mewn naw o'r 21 o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH). Mae'r tabl isod yn dangos y tri grŵp pynciau â'r nifer fwyaf o gofrestriadau ar gyfer pob darparwr.

Tabl 4 – Grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) â'r nifer fwyaf o gofrestriadau yn ôl DAU yng Nghymru, 2023/24

DAU yng Nghymru	Grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) â'r nifer fwyaf o gofrestriadau		
Prifysgol Caerdydd	Pynciau perthynol i feddygaeth (4,860)	Gwyddorau cymdeithasol (2,830)	Busnes a rheoli (2,620)
Prifysgol De Cymru	Pynciau perthynol i feddygaeth (4,565)	Busnes a Rheoli (4,065)	Y Gyfraith (2,690)
Prifysgol Abertawe	Busnes a Rheoli (3,470)	Pynciau perthynol i feddygaeth (3,395)	Peirianeg a thechnoleg (2,835)
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Busnes a rheoli (6,050)	Gwyddorau cymdeithasol (2,940)	Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio (1,220)
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	Gwyddorau cymdeithasol (2,615)	Seicoleg (2,465)	Astudiaethau cyfunol a chyffredinol (2,295)
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Busnes a rheoli (2,615)	Gwyddorau biolegol a chwaraeon (2,135)	Addysg ac addysgu (1,170)
Prifysgol Bangor	Gwyddorau biolegol a chwaraeon (1,850)	Pynciau perthynol i feddygaeth (1,645)	Busnes a Rheoli (1,520)
Prifysgol Wrecsam	Busnes a Rheoli (2,720)	Pynciau perthynol i feddygaeth (1,580)	Addysg ac addysgu (1,190)
Prifysgol Aberystwyth	Ieithoedd ac astudiaethau ardal (920)	Addysg ac addysgu (860)	Gwyddorau biolegol a chwaraeon (770)
Colegau a darparwyr amgen	Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol (Y Ganolfan Technoleg Amgen 235)	Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol (Athrofa Padarn Sant 210)	Pynciau perthynol i feddygaeth (Grŵp Llandrillo Menai 165)
Yr holl ddarparwyr	Busnes a rheoli (25,100)	Pynciau perthynol i feddygaeth (18,445)	Gwyddorau cymdeithasol (15,135)

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfedredd yn y Gymraeg

91. Mae'r gyfran o fodiwl a gaiff ei hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chasglu ar gyfer pob cofrestriad ar fodiwl, ar gyfer pob darpariaeth heblaw am gofrestriadau ymchwil ôl-radd lle gellir ei chasglu fel cyfran o fodiwl neu gyfran o'r flwyddyn astudio. Cyfrifir nifer y credydau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad fel nifer y credydau ar gyfer modiwl, wedi'i luosi â'r gyfran trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yna wedi'i symio dros yr holl fodiwlau ar gyfer y flwyddyn academiaidd. Caiff cofrestriadau eu categoreiddio'n rhai sy'n cymryd o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n cymryd o leiaf 40 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Sylwer fod y categori 5+ yn cynnwys y rhai sy'n astudio 40+ o gredydau. Cesglir hyfedredd yn y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig.
92. Mae'r tabl isod yn rhoi'r holl ffigyrau ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru gyda faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gymerwyd a chyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd wedi hunanadrodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg.

Tabl 5a – Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a hyfedredd yn y Gymraeg yn ôl dull a lefel astudio – myfyrwyr sy'n hanu o Gymru 2023/24

Dull astudio	Lefel astudio	Nifer y cofrestriadau					
		Yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg	Yn astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg	Yn rhugl yn y Gymraeg	% 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg	% 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg	% y mae'n hysbys eu bod yn rhugl yn y Gymraeg
Amser llawn	Israddedig	2,885	1,720	5,290	9%	5%	16%
	Ôl-radd	410	275	780	9%	6%	16%
Rhan-amser	Israddedig	685	205	1,935	3%	1%	8%
	Ôl-radd	220	140	1,055	3%	2%	13%
Cyfanswm		4,200	2,340	9,060	6%	3%	13%

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

93. Ceir hefyd nifer fach o fyfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru sy'n cymryd peth darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a ddangosir yn y tabl isod.

Tabl 5b – Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl dull a lefel astudio – myfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru 2023/24


Dull astudio	Lefel astudio	Nifer y cofrestriadau		% 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg	% 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg
		Yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg	Yn astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg		
Amser llawn	Israddedig	280	30	0.5%	0.1%
	Ôl-radd	25	10	0.4%	0.1%
Rhan-amser	Israddedig	40	10	1.2%	0.2%
	Ôl-radd	15	0	0.2%	0.0%
Cyfanswm		360	50	0.4%	0.1%

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

94. Mae'r dadansoddiad isod yn gyfyngedig i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru er mwyn i'r boblogaeth a ddefnyddir wrth gyfrifo canrannau fod yr un sy'n debygol o wneud rhywfaint o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
95. Mae Siartiau 18 i 21 isod yn dangos canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ar gyfer cofrestriadau israddedig amser llawn, ac yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ar gyfer cofrestriadau israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn ac ôl-radd rhan-amser. Defnyddir lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ar gyfer y tri grŵp hwn o ran dull a lefel o ystyried y niferoedd bychain a ddadansoddwyd mewn rhai categorïau. Mae rhai grwpiau pynciau wedi'u hepgor lle mae'r niferoedd yn fach ac y byddai'r canrannau'n datgelu pwy ydynt. Mae'r siartiau wedi'u trefnu yn ôl grwpiau pynciau â'r gyfran fwyaf o gofrestrïadau'n astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Sylwer fod 5+ o gredydau'n cynnwys 40+ o gredydau.
96. Ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, Astudiaethau Celtaidd sydd â'r gyfran fwyaf o bell ffordd o gofrestrïadau'n astudio naill ai 40+ neu 5+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, fel y gellid ei ddisgwyl o ystyried bod Cymraeg iaith a llenyddiaeth Cymru wedi'u cynnwys yn y grŵp hwnnw. Grwpiau pynciau eraill ag o leiaf 10% yn astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg yw Addysg ac addysgu (20%), Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig (16+), Meddygaeth a deintyddiaeth (10%) a Gwyddorau mathemategol (10%). Mae'r rhai sy'n astudio ar gyfer 5+ credyd yn dilyn patrwm tebyg yn bennaf, ond gyda Chelfyddydau perfformio eraill (21%), Y celfyddydau creadigol a dylunio (17%) ac Iechyd a gofal cymdeithasol (15%) i gyd â mwy na 15% o gofrestrïadau â 5+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg.
97. Roedd gan rai pynciau ychydig iawn o gofrestrïadau israddedig amser llawn yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda Gwyddor filfeddygol a Deunyddiau a thechnoleg heb unrhyw gofrestrïadau'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, er bod ganddynt gyfrannau bychain yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd Cemeg, Astudiaethau cyffredinol a chyfunol ac Economeg i gyd heb unrhyw gofrestrïadau'n astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg.


98. Ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, roedd cyfran is o gofrestriadau'n astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig oedd â thros 10% o'r cofrestriadau'n astudio ar gyfer 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer 5+ credyd, roedd gan Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig, a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, oddeutu 25% o gofrestriadau'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd gan Seicoleg, Y Gyfraith, Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol, a Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol unrhyw gofrestriadau'n astudio 40+ o gredydau na 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
99. Ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, dim ond nifer fach o grwpiau pynciau oedd ag unrhyw gofrestriadau a oedd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan Addysg ac addysgu ac leithoedd ac astudiaethau ardal (sy'n cynnwys Astudiaethau Celtaidd ac felly Cymraeg iaith a llenyddiaeth Cymru) ill dau 20% yn astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg a thros 20% yn astudio 5+ credyd.
100. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd ran-amser, roedd y patrwm yn debyg gyda dim ond Addysg ac addysgu ac leithoedd ac astudiaethau ardal yn bynciau ag unrhyw gyfrannau nodedig o gofrestriadau'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda thros 10% yn y naill a'r llall yn astudio 5+ credyd a thros 8% yn astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart 18 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), israddedig amser llawn 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

**Siart 19 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru a oedd yn astudio
5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp
pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH),
israddedig rhan-amser 2023/24**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

**Siart 20 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru a oedd yn astudio
5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp
pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ôl-radd
amser llawn 2023/24**



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Siart 21 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ôl-radd rhan-amser 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

101. Gallai cyfran isel y cofrestriadau a oedd yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai grwpiau pynciau, dulliau a lefelau fod i'w phriodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys argaeledd darlithwyr a thiwtoriaid Cymraeg, diffyg deunyddiau neu adnoddau eraill yn Gymraeg i'w defnyddio wrth addysgu, diffyg diddordeb gan fyfyrwyr, a chostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer grwpiau bychain o fyfyrwyr.
102. Mae'r ail set o siartiau isod yn dangos y gyfran o'r cofrestriadau sydd wedi hunanddatgan eu bod yn rhugl mewn Cymraeg, sy'n astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yr ydym yn ei defnyddio fel dirprwy ar gyfer y rhai a allai astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid nodi bod rhai myfyrwyr nad ydynt yn datgan eu bod yn rhugl mewn Cymraeg wedi'u cofrestru i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mai dim ond fel dirprwy y defnyddir yr hunanddatganiad.
103. Y nod wrth edrych ar y siartiau hyn yw gweld a oes unrhyw alw digyffwrdd posibl am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nas diwellir. Gall unrhyw ganfyddiadau yma gael eu defnyddio ar gyfer ymchwilio pellach.
104. Ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, mae gan wyth o'r 32 o grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) ag o leiaf 23 o gofrestriadau dros 50% o gofrestriadau sy'n rhugl mewn Cymraeg yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae gan dri dros 50% yn astudio 40+ o gredydau. Fodd bynnag, ceir nifer o bynciau lle mai dim ond cyfrannau bychain o

siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys Cyfrifiadura (7%), Peirianeg (4%) a Chemeg (4%).


105. Ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, roedd y patrwm ar gyfer 5+ credyd a 40+ o gredydau'n wahanol yn yr ystyr bod gan Ddylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio 84% o'i gofrestriadau rhugl mewn Cymraeg yn astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ond dim ond 3% yn astudio 40+ o gredydau. Roedd gan Bynciau perthynol i feddygaeth (20%), Gwyddorau mathemategol (22%) a'r Gwyddorau cymdeithasol (21%) 20% neu fwy o gofrestriadau'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ond dim ond Pynciau perthynol i feddygaeth oedd â mwy na 10% yn astudio 40+ o gredydau. Nid oedd gan Seicoleg, Y Gyfraith ac Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol unrhyw gofrestriadau'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
106. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd amser llawn, roedd y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg rhugl mewn Addysg ac addysgu (79%) yn astudio ar gyfer 40+ o gredydau. Roedd gan leithoedd ac astudiaethau ardal (30%), Gwyddorau cymdeithasol (26%) a Phynciau perthynol i feddygaeth (26%) hefyd dros 20% o gofrestriadau rhugl mewn Cymraeg yn astudio 40+ o gredydau. Nid oedd gan Wyddorau biolegol a chwaraeon, Cyfrifiadura, Y Gyfraith a Busnes a rheoli unrhyw gofrestriadau'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
107. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd ran-amser, roedd y gyfran fwyaf o weithgarwch cyfrwng Cymraeg mewn Addysg ac addysgu (35% yn astudio 40+ o gredydau), leithoedd ac astudiaethau ardal (32% yn astudio 40+ o gredydau) a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio (12% yn astudio 40+ o gredydau). O'r grwpiau pynciau eraill ag o leiaf 23 o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl, dim ond Gwyddorau cymdeithasol a Phynciau perthynol i feddygaeth oedd ag unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Siart 22 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru sy'n rhugl mewn Cymraeg a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), israddedig amser llawn 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Siart 23 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru sy'n rhugl mewn Cymraeg a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), israddedig rhan-amser 2023/24




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Siart 24 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru sy'n rhugl mewn Cymraeg a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ôl-radd amser llawn 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Siart 25 - % y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru sy'n rhugl mewn Cymraeg a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ôl-radd rhan-amser 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

108. Mae'r ddau dabl isod yn dangos nifer y cofrestriadau a oedd yn astudio 5+ credyd a 40+ o gredydau, yn y drefn honno, trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf, yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), ar gyfer pob dull a lefel astudio a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni. Mae'r ffigyrau'n dangos bod nifer y cofrestriadau â 5+ credyd a'r nifer â 40+ o gredydau wedi gostwng dros y cyfnod o bum mlynedd, a hynny 9% a 10% yn y drefn honno.
109. Ar gyfer cofrestriadau â 5+ credyd, y grwpiau pynciau â'r cynnydd mwyaf rhwng 2019/20 a 2023/24 oedd Meddygaeth a deintyddiaeth (229%), Peirianeg a thechnoleg (151%), Amaeth, bwyd a phynciau cysylltiedig (42%) a Phynciau perthynol i feddygaeth (41%). Y rhai â'r gostyngiadau mwyaf (gyda mwy nag 20 o gofrestrïadau mewn o leiaf un flwyddyn) oedd Astudiaethau cyfunol a chyffredinol (99%), Cyfrifiadura (83%) a'r Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu (67%).
110. Ar gyfer cofrestriadau â 40+ o gredydau gydag o leiaf 20 o gofrestrïadau mewn un flwyddyn, Peirianeg a thechnoleg (1150%), Meddygaeth a deintyddiaeth (84%) ac Amaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig (22%) oedd â'r cynnydd mwyaf. Astudiaethau cyfunol a chyffredinol (100%), Busnes a rheoli (70%), Gwyddorau ffisegol (68%) a Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol (51%) oedd â'r gostyngiadau canrannol mwyaf.

Tabl 6 – Nifer y cofrestriadau'n astudio 5+ credyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn DAUwyr Cymru 2019/20 i 2023/24

Grŵp Pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH)	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	Newid %
Meddygaeth a Deintyddiaeth	85	105	125	170	285	229%
Pynciau Perthynol i Feddygaeth	515	640	930	770	720	41%
Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon	325	280	245	220	195	-40%
Seicoleg	75	75	70	85	90	21%
Gwyddorau Milfeddygol	0	0	5	0	0	-100%
Amaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig	60	75	150	80	85	42%
Gwyddorau Ffisegol	45	40	10	10	20	-53%
Gwyddorau Mathemategol	40	40	30	40	35	-12%
Peirianeg a Thechnoleg	15	20	90	45	45	151%
Cyfrifiadura	160	130	65	60	25	-83%
Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio	30	65	20	10	35	10%
Gwyddorau Cymdeithasol	675	845	835	660	615	-9%
Y Gyfraith	220	235	185	145	125	-44%
Busnes a Rheoli	130	360	310	195	110	-16%
Ieithoedd ac Astudiaethau Ardal	355	390	415	380	330	-7%
Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol	145	215	145	90	70	-50%
Addysg ac Addysgu	930	1,185	1,225	1,135	1,055	14%
Astudiaethau Cyfunol a Chyffredinol	160	115	55	60	0	-99%
Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu	245	100	85	80	80	-67%
Dylunio, ar Celfyddydau Creadigol a Pherfformio	700	1,000	1,035	885	590	-16%
Daearyddiaeth, Astudiaethau'r Ddaear ac Amgylcheddol	110	105	45	40	45	-59%
Cyfanswm	5,020	6,015	6,070	5,160	4,560	-9%

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Tabl 7 - Nifer y cofrestriadau'n astudio 40+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg yn DAUwyr Cymru 2019/20 i 2023/24

Grŵp Pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH)	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	Newid %
Meddygaeth a Deintyddiaeth	60	80	105	150	105	84%
Pynciau Perthynol i Feddygaeth	395	480	515	535	475	21%
Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon	120	150	140	135	120	0%
Seicoleg	55	50	50	50	55	4%
Gwyddorau Milfeddygol	0	0	0	0	0	-
Amaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig	45	55	90	60	55	22%
Gwyddorau Ffisegol	20	15	0	5	5	-68%
Gwyddorau Mathemategol	25	25	20	25	25	8%
Peirianeg a Thechnoleg	0	0	25	10	25	1150%
Cyfrifiadura	20	20	20	15	10	-46%
Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio	5	5	10	5	5	17%
Gwyddorau Cymdeithasol	310	270	195	160	185	-39%
Y Gyfraith	110	95	75	60	55	-49%
Busnes a Rheoli	105	105	70	45	30	-70%
Ieithoedd ac Astudiaethau Ardal	320	320	325	310	280	-13%
Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol	85	75	60	55	50	-38%
Addysg ac Addysgu	560	675	685	560	640	14%
Astudiaethau Cyfunol a Chyffredinol	25	20	0	20	0	-100%
Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu	40	45	55	50	50	20%
Dylunio, ar Celfyddydau Creadigol a Pherfformio	315	290	285	165	180	-42%
Daearyddiaeth, Astudiaethau'r Ddaear ac Amgylcheddol	60	50	35	35	30	-51%
Cyfanswm	2,670	2,825	2,765	2,445	2,390	-10%


Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Adran 2: Llif i addysg uwch – Safon Uwch a gwblhawyd

111. Mae'r pynciau a gaiff eu hastudio cyn mynd i mewn i addysg uwch yn dylanwadu ar y dewisiadau y mae myfyrwyr yn eu gwneud ynglŷn â pha bynciau i'w hastudio ar lefel addysg uwch. Gall cynnydd neu ostyngiadau o ran cwblhau pynciau Safon

Uwch penodol effeithio ar y duedd ar lefel israddedig, sydd wedyn yn gallu cael effaith ddilynol ar ddarpariaeth ôl-radd.


112. Rydym wedi bwrw golwg ar Safon Uwch a gwblhawyd fesul pwnc. Nid yw'r adroddiad hwn wedi cynnwys y llif i AU o gymwysterau eraill, ac mae hyn wedi'i restru fel maes posibl ar gyfer gwaith pellach yn adran 6. Mae'r siart isod yn dangos y duedd ar y cyfan mewn Safon Uwch a gwblhawyd ar gyfer y 10 mlynedd ddiwethaf. Roedd y duedd yn un tuag i lawr rhwng 2014/15 a 2019/20, gyda chynnydd yn 2020/21 ac yna tuedd tuag i lawr hyd at 2023/24 yn ôl i ychydig uwchlaw lefelau 2019/20. Bydd pandemig Covid19 wedi effeithio ar y patrwm a welwyd yn 2020/21 a 2021/22.



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16

113. Yn yr adran hon, rydym wedi canolbwyntio ar y grwpiau pynciau addysg uwch sydd wedi profi gostyngiadau arbennig yn y ddarpariaeth ar lefel israddedig, ac wedi cymharu'r gostyngiadau hynny â'r pynciau Safon Uwch sy'n debygol o fod yn ofynnol i astudio'r pynciau hyn. Mae tueddiadau dros y 10 mlynedd ddiwethaf ar gyfer Safon Uwch a gwblhawyd ar gyfer pob pwnc Safon Uwch wedi'u cynnwys yn Atodiad E.
114. Y grwpiau pynciau lefel 1 yn yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) â thuedd ostyngol nodedig mewn cofrestriadau ar lefel israddedig yw'r Gwyddorau Ffisegol, y Gwyddorau mathemategol, leithoedd ac astudiaethau ardal, Addysg ac addysgu a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio.
115. Mae Siart 27 isod yn dangos y duedd mewn Safon Uwch a gwblhawyd mewn pynciau Gwyddoniaeth a Mathemateg. Mae'r rhain yn bynciau y gellid disgwyl iddynt arwain at astudio Gwyddorau ffisegol neu Wyddorau mathemategol ar lefel israddedig. Nid yw'r siart yn dangos yr un gostyngiadau ag a welwyd mewn Safon Uwch a gwblhawyd ar y cyfan yng Nghymru nac mewn astudio ar lefel israddedig yng Nghymru, yn enwedig astudio amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ond yn


dangos Safon Uwch a gwblhawyd yng Nghymru ac nid yn y DU yn fwy eang ac nid ydynt yn ystyried tuedd y rhai sy'n meddu ar y cymwysterau Safon Uwch hyn i wneud cais i astudio'r pynciau hyn yn narparwyr Cymru. Gallai fod yn wir, er enghraifft, bod y rhai â Safon Uwch mathemateg a gwyddoniaeth yn fwy tebygol o fynd i mewn i addysg uwch y tu allan i Gymru. Byddai angen gwneud gwaith pellach ar lifoedd trawsffiniol myfyrwyr, i ymchwilio'n fanylach i hyn.



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16

116. Mae Siart 28 isod yn dangos Safon Uwch a gwblhawyd mewn ieithoedd tramor modern, ac mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, gan bod y pynciau hyn wedi'u cynnwys yn y grŵp pynciau ieithoedd ac astudiaethau ardal ar lefel israddedig. Mae'r duedd tuag i lawr mewn cofrestrïadau ar lefel israddedig i'w gweld yn y Safon Uwch a gwblhawyd ar gyfer pynciau yn y grŵp yma hefyd, yn enwedig mewn Ffrangeg ar gyfer ieithoedd tramor modern, a Chymraeg fel ail iaith.


Siart 28 - Safon Uwch a gwblhawyd yng Nghymru ym mhynciau leithoedd tramor modern a Chymraeg iaith 2014/15 i 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16

117. Ar gyfer grŵp pynciau lefel 1 Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio yn yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), mae Siart 29 isod yn dangos Safon Uwch a gwblhawyd sy'n gysylltiedig. Gwelwyd tuedd tuag i lawr yn yr ymgeiswyr am Safon Uwch yn y Celfyddydau perfformio, Celf a dylunio a Cherddoriaeth. Gwelwyd gostyngiad ac yna cynnydd mewn cofrestriadau ar gyfer Astudiaethau ffilm, ond mae'r niferoedd ar y cyfan yn fach.

Siart 29 - Safon Uwch a gwblhawyd yng Nghymru ym mhynciau Celf a dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio 2014/15 i 2023/24



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16

Adran 3: Ceisiadau a derbyniadau UCAS


118. Darparwyd y ffigyrau yn yr adran hon ar ein cyfer gan UCAS. Mae gennym chwe blynedd o ddata grwpiau pynciau ar lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) yr ydym wedi'i ddadansoddi i chwilio am dueddiadau mewn dewisiadau pynciau ar gyfer ceisiadau, ymgeiswyr a derbyniadau israddedig amser llawn. Gall darpar fyfyrwyr wneud hyd at bum cais ac felly wrth ystyried niiferoedd y ceisiadau, dylid nodi y gallai myfyriwr gael ei gynrychioli hyd at bum gwaith yn y ffigyrau ac y gall gyflwyno cais ar gyfer yr un cwrs neu gyrsiau gwahanol mewn darparwyr gwahanol, i gyrsiau gwahanol yn yr un darparwr, neu i ddarparwyr mewn gwledydd gwahanol yn y DU. Darparwyd data ymgeiswyr i ni hefyd ond rydym wedi canolbwyntio ar geisiadau a derbyniadau yn unig yn yr adran hon.

119. Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymwneud â cheisiadau a derbyniadau UCAS i gyrsiau israddedig amser llawn yn unig ac felly mae'n cynrychioli dim ond y rhai sy'n ymgeisio trwy UCAS, ac nid yw'n cynnwys unrhyw fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais yn uniongyrchol i'r darparwr, nac unrhyw astudiaeth nad yw'n israddedig amser llawn. Bydd cyfran y myfyriwr sy'n cael lleoedd yn narparwyr AU Cymru trwy UCAS yn amrywio yn ôl pwnc astudio, math o fyfyrwr (oedran, cymwysterau blaenorol, lleoliad preswyl a.y.b.) a darparwr, ymhlith ffactorau eraill.

Ceisiadau a derbyniadau diweddaraf

120. Y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata mynediad ar ei chyfer yw 2024. Mae'r siart isod yn dangos ceisiadau i ddarparwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae'r ymgeisydd yn hanu ohoni.


**Siart 30 - Ceisiadau UCAS i DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau
lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae
ymgeiswyr yn hanu ohoni 2024**



Ffynhonnell: UCAS

121. Roedd dros hanner (54%) yr holl geisiadau i DAUwyr Cymru gan ymgeiswyr sy'n hanu o weddill y DU, roedd 32% gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru ac roedd 13% gan ymgeiswyr tramor. Roedd pynciau â chyfrannau uchel o geisiadau gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru'n cynnwys lechyd a gofal cymdeithasol (72%), Astudiaethau Celtaidd (99%) ac Addysg ac addysgu (74%). Y rhain oedd yr unig dri phwnc â thros 50% o geisiadau o Gymru. Meddygaeth a deintyddiaeth (15%), Economeg (13%) a Gwleidyddiaeth (15%) oedd â'r cyfrannau isaf o geisiadau gan ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru.
122. Mae'r siart isod yn dangos yr un dadansoddiad ar gyfer derbyniadau i ddarparwyr Cymru.

**Siart 31 - Derbyniadau UCAS i DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau
lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin a'r wlad y mae
ymgeiswyr yn hanu ohoni 2024**




Ffynhonnell: UCAS

123. Ar y cyfan roedd cyfran y derbyniadau a oedd yn ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru'n uwch na'r ceisiadau ar 44%, gyda 48% yn hanu o weddill y DU ac 8% yn hanu o


dramor. Y pynciau â'r gyfran uchaf o dderbyniadau a oedd yn rhai sy'n hanu o Gymru oedd Nyrsio a bydwreigiaeth (71%), Iechyd a gofal cymdeithasol (89%), Astudiaethau Celtaidd (97%) ac Addysg ac addysgu (85%). Pynciau â chyfrannau isel o ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru'n cael eu derbyn oedd Biowyddorau (23%), Cemeg (24%). Economeg (15%), Ieithoedd ac astudiaethau ardal (23%), a Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol (23%). Dangosir y ceisiadau a'r derbyniadau ar y cyfan ar gyfer darparwyr Cymru yn y siart isod, wedi'u trefnu yn ôl nifer y ceisiadau.

Siart 32 - Ceisiadau a derbyniadau UCAS i DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2024



Ffynhonnell: UCAS


124. Caiff hyn ei grynhoi ymhellach fel y gyfradd dderbyn (derbyniadau wedi'u rhannu â cheisiadau) ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) a'r wlad y mae'r ymgeisydd yn hanu ohoni, yn y siart isod. Dylid ystyried y niferoedd o dderbyniadau a cheisiadau sydd wedi eu dangos yn Siart 32 wrth graffu ar y cyfraddau derbyn yn Siart 33.



Ffynhonnell: UCAS


125. Mae rhai grwpiau pynciau wedi profi cynnydd dros y pum mlynedd ddiwethaf yn nifer y ceisiadau a'r derbyniadau. Mae'r siartiau isod yn dangos y newid rhwng mynediad yn 2019 a mynediad yn 2024 ar gyfer darparwyr Cymru a'r DU, wedi'u trefnu yn ôl y newid canrannol mewn ceisiadau. Sylwer nad yw Gwyddorau milfeddygol nac Astudiaethau cyfunol a chyffredinol wedi'u cynnwys ar gyfer darparwyr yng Nghymru oherwydd y nifer fach o dderbyniadau yn 2019.

**Siart 34 - newid canrannol mewn ceisiadau a derbyniadau UCAS i DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau
lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2019 i 2024**



Ffynhonnell: UCAS

**Siart 35 - newid canrannol mewn ceisiadau a derbyniadau UCAS i DAUwyr y DU yn ôl grŵp pynciau lefel
2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2019 i 2024**



Ffynhonnell: UCAS

126. Mae'r siartiau'n dangos ar gyfer DAUwyr Cymru mai'r rhai â'r gostyngiadau mwyaf mewn ceisiadau a derbyniadau yw leithoedd ac astudiaethau ardal ac lechyd a gofal cymdeithasol. Y rhain hefyd oedd y ddau grŵp pynciau â'r gostyngiadau mwyaf yn y DU gyfan.
127. Gwelir y cynnydd mwyaf mewn ceisiadau a derbyniadau ar gyfer darparwyr Cymru mewn Ffarmacoleg, tocsicoleg a fferylliaeth ac Addysg ac addysgu. Ar gyfer y DU hefyd, mewn Ffarmacoleg, tocsicoleg a fferylliaeth y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ceisiadau, er y gwelwyd cynnydd mawr mewn derbyniadau ar gyfer Gwyddorau meddygol a Phensaernïaeth, adeiladu a chynllunio hefyd. Roedd Addysg ac addysgu yn wahanol yng Nghymru yn yr ystyr mai dyma'r pynciau â'r trydydd gostyngiad uchaf ar gyfer DAUwyr y DU.
128. Mae Atodiad F yn dangos, ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 2 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), tuedd chwe blynedd mewn derbyniadau a chyfraddau derbyn ar gyfer DAUwyr Cymru.

Adran 4: Canlyniadau REF 2021


129. Fe wnaeth ymarfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021 fwrw golwg ar ansawdd ymchwil sy'n digwydd mewn DAUwyr yn y DU. Mae ceisiadau i'r ymarfer yn cael eu cyflwyno mewn nifer o unedau asesu ac yn cael eu hasesu gan banel o arbenigwyr. Caiff y canlyniadau eu crynhoi mewn proffil ansawdd ar y cyfan.

Tabl 8 – Categorïau proffil ansawdd REF 2021

Canlyniad REF 2021	Diffiniad
Pedair seren	Ansawdd sydd ar flaen y gad yn y byd o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd.
Tair seren	Ansawdd sy'n rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd ond nad yw'n cyrraedd y safonau rhagoriaeth uchaf.
Dwy seren	Ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd.
Un seren	Ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd.
Diddosbarth (UC)	Ansawdd nad yw'n cyrraedd safon gwaith a gydnabyddir yn genedlaethol. Neu waith nad yw'n cyd-fynd â'r diffiniad o ymchwil a gyhoeddwyd at ddibenion yr asesiad hwn.

130. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan REF 2021](#). Mae Siart 36 yn dangos canlyniadau REF 2021 ar gyfer Cymru yn ôl Uned Asesu fel cyfran o'r staff CagALI a gyflwynwyd yn y categorïau proffil ansawdd. Mae'r siart wedi'i threfnu yn ôl cyfran y staff CagALI 4* allan o gyfanswm y staff CagALI a gyflwynwyd i'r ymarfer.

Siart 36 - Canlyniadau REF 2021 yn ôl uned asesu, DAUwyr Cymru - cyfran y staff CagALI yn ôl proffil ansawdd



Ffynhonnell: REF 2021

131. Mae gan Gymru gyfran ychydig yn is o staff CagALI a ddosbarthwyd fel rhai 4* ar gyfer ansawdd na'r DU gyfan (37% o'i gymharu â 41%). Roedd staff CagALI a gyflwynwyd i ymarfer REF 2021 ar gyfer Cymru'n rhoi cyfrif am 3.9% o gyfanswm y DU ac mewn rhai meysydd pynciau roedd y niferoedd a gyflwynwyd yn fach iawn. Er mwyn rhoi cyd-destun, roedd 3.9% o fyfyrwyr ymchwil ôl-radd yn y DU yn astudio

yn DAUwyr Cymru ac roedd 4.4% o staff academiaidd yn DAUwyr y DU yn cael eu cyflogi mewn DAUwyr yng Nghymru, yn 2021/22.

132. Mae Atodiad G yn dangos, ar gyfer pob un o grwpiau pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), Unedau Asesu cysylltiedig REF 2021 yn ôl proffil ansawdd.

Adran 5: Adnoddau ychwanegol

133. Mae gwaith arall a wnaed yn y maes hwn yn cynnwys:

- Yr Academi Brydeinig, Medi 2025: [Cold spots: Mapping inequality in SHAPE provision in UK higher education](#)
- Y Sefydliad Polisi Addysg Uwch, Gorffennaf 2025: [The Languages Crisis: Arresting Decline - HEPI](#)
- Adroddiad Universities UK, Mai 2025: [Supply and demand for high-cost subjects and graduate progression to growth sectors](#).
- Yr Academi Brydeinig, Awst 2024: [British Academy report Subject choice trends post-16-education-England](#)
- Data agored HESA (Jisc), dadansoddiad pynciol: [What do HE students study?](#)
- Dangosfwrdd niferoedd astudio pynciau HESA (Jisc): [Subject uptake dashboard](#) a [sylwebaeth](#)

Adran 6: Meysydd ychwanegol i'w hystyried ar gyfer gwaith yn y dyfodol

134. Meysydd yw'r rhain nad ydynt o fewn cwrpas y darn hwn o waith ond a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol, er enghraifft:

- Deilliannau graddedigion ar gyfer pob grŵp pynciau gan ddefnyddio data Arolwg Hynt Graddedigion HESA, gan gynnwys tuedd.
- Dilyniant trwy addysg drydyddol gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl grŵp pynciau gan ddefnyddio'r Set Ddata Addysg Wedi'i Pharu. Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i weld a yw'r rhai â chymwysterau Safon Uwch mewn rhai pynciau penodol yn fwy tebygol o fynd y tu allan i Gymru i astudio, a sut y mae pwnc a gradd Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill yn effeithio ar eu dewis o ran lleoliad astudio.
- Llifoedd trawsffiniol yn ôl grŵp pynciau gan ddefnyddio data cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer y DU, gyda Lloegr wedi'i rhannu yn ôl ei rhanbarthau.
- Dosbarthiad cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yng Nghymru o'i gymharu â'r boblogaeth bosibl a allai astudio.
- Pynciau Safon Uwch ar adeg mynediad ar gyfer y rhai mewn addysg uwch, yn ôl pwnc a astudir, gan gynnwys cymharu'r pynciau Safon Uwch y meddir arnynt gan y myfyrwyr hynny sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru a'r rhai sy'n astudio yng ngwledydd eraill y DU.
- Pynciau a astudir yn ôl nodweddion personol, er enghraifft oedran, rhyw, anabledd ac ethnigrwydd, a chyflawniad blaenorol, er enghraifft Safon Uwch neu gymwysterau eraill, pynciau a ddewiswyd ar gyfer Safon Uwch a sgôr tariff.







- Golwg ar bynciau modiwlau a ddewisir yn ôl pwnc cwrs i weld a ellir cael unrhyw fewnwelediad pellach, yn enwedig ar gyfer cyrsiau a ddychwelir yn erbyn Astudiaethau cyfunol a chyffredinol.
- Cyfres amser o'r dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw.
- Cyfres amser o ddosbarthiad rhanbarthol pynciau a astudir.
- Dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau REF 2021 gan gynnwys cymhariaeth â'r dadansoddiad o gofrestrïadau.
- Golwg fanwl ar feysydd pwnc penodol sydd o ddiddordeb.
- Y pynciau israddedig a ddewiswyd gan newydd-ddyfodiaid o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, y pynciau Safon Uwch a ddewiswyd ganddynt ac argaeledd cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y llif i AU o gymwysterau galwedigaethol ar lefel 3, a dosbarthiad rhanbarthol cymwysterau lefel 3 yng Nghymru yn ôl pwnc.
- Dadansoddiad o ddata am staff mewn prifysgolion a sut y mae hyn yn cysylltu â phynciau a astudir, gan gynnwys argaeledd staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Meysydd ychwanegol a awgrymir o ganlyniad i drafodaethau am ganfyddiadau'r adroddiad hwn.

Rhagor o wybodaeth

135. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ystadegauAU@medr.cymru.

Atodiad A – tueddiadau mewn cofrestriadau amser llawn yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), yn ôl lefel astudio, 2014/15 i 2023/24


1. Daw'r data a ddangosir yn yr atodiad hwn o gofnod myfyrwyr HESA. Fe wnaeth codau HECoS ddisodli codau pynciau'r Cyd-System Codio Academaidd (JACS) yn 2019/20 ac felly mae codau JACS ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi cael eu mapio i grwpiau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) at ddibenion cymharu. Sylwer nad yw'r siartiau i gyd i'r un raddfa.




■ Gradd israddedig amser llawn ■ Israddedig amser llawn nad yw'n radd ■ Ôl-radd a addysgir amser llawn ■ Ymchwil ôl-radd amser llawn

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


CAH07 Gwyddorau Ffisegol




CAH09 Gwyddorau Mathemategol




CAH10 Peirianneg a Thechnoleg




CAH11 Cyfrifiadura



CAH13 Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio









CAH15 Gwyddorau cymdeithasol



■ Gradd israddedig amser llawn ■ Israddedig amser llawn nad yw'n radd ■ Ôl-radd a addysgir amser llawn ■ Ymchwil ôl-radd amser llawn


Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA




■ Gradd israddedig amser llawn ■ Israddedig amser llawn nad yw'n radd ■ Ôl-radd a addysgir amser llawn ■ Ymchwil ôl-radd amser llawn

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


CAH24 Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu



CAH25 Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio



CAH26 Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol



■ Gradd israddedig amser llawn

■ Israddedig amser llawn nad yw'n radd


■ Ôl-radd a addysgir amser llawn

■ Ymchwil ôl-radd amser llawn

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Atodiad B – tueddiadau mewn cofrestriadau rhan-amser yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH), yn ôl lefel astudio, 2014/15 i 2023/24


1. Daw'r data a ddangosir yn yr atodiad hwn o gofnod myfyrwyr HESA. Fe wnaeth codau HECoS ddisodli codau pynciau'r Cyd-System Codio Academiaidd (JACS) yn 2019/20 ac felly mae codau JACS ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi cael eu mapio i grwpiau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) at ddibenion cymharu. Sylwer nad yw'r siartiau i gyd i'r un raddfa. Nid yw CAH05 Gwyddorau milfeddygol wedi cael ei gynnwys oherwydd niferoedd bychain




■ Gradd israddedig ran-amser ■ Israddedig rhan-amser nad yw'n radd ■ Ôl-radd a addysgir rhan-amser ■ Ymchwil ôl-radd ran-amser

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


CAH07 Gwyddorau Ffisegol




CAH09 Gwyddorau Mathemategol




CAH10 Peirianeg a Thechnoleg




CAH11 Cyfrifiadura



CAH13 Pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio



CAH15 Gwyddorau cymdeithasol




■ Gradd israddedig ran-amser ■ Israddedig rhan-amser nad yw'n radd


■ Ôl-radd a addysgir rhan-amser ■ Ymchwil ôl-radd ran-amser

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


CAH16 Y Gyfraith




CAH17 Busnes a Rheoli




CAH19 Ieithoedd ac astudiaethau ardal




CAH20 Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol



CAH22 Addysg ac addysgu



CAH23 Astudiaethau cyfunol a chyffredinol




■ Gradd israddedig ran-amser ■ Israddedig rhan-amser nad yw'n radd


■ Ôl-radd a addysgir rhan-amser ■ Ymchwil ôl-radd ran-amser

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


CAH24 Y cyfryngau,
newyddiaduraeth a chyfathrebu



CAH25 Dylunio, a'r celfyddydau
creadigol a pherfformio



CAH26 Daearyddiaeth,
astudiaethau'r ddaear ac
amgylcheddol



■ Gradd israddedig ran-amser

■ Israddedig rhan-amser nad yw'n radd

■ Ôl-radd a addysgir rhan-amser

■ Ymchwil ôl-radd ran-amser

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA

Atodiad C – Cyfanswm cofrestriadau a newid canrannol rhwng blynyddoedd yn DAUwyr Cymru yn ôl grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH) 2014/15 i 2023/24

Cofrestriadau

Grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH)	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Meddygaeth a Deintyddiaeth	3,850	3,565	3,370	3,180	3,210	3,540	3,675	3,740	3,525	3,575
Pynciau Perthynol i Feddygaeth	12,490	14,135	14,415	15,785	16,350	15,825	17,345	18,005	19,115	18,445
Gwyddor Fiolegol a Chwaraeon	9,015	9,685	9,940	10,155	10,235	9,935	10,550	10,615	10,370	10,550
Seicoleg	5,605	5,740	6,285	6,235	6,565	7,060	8,195	8,720	8,410	8,385
Gwyddorau Milfeddygol	10	35	65	135	170	145	95	120	140	150
Amaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig	1,350	1,315	1,280	1,180	1,140	1,195	1,310	1,200	1,340	1,155
Gwyddorau Ffisegol	3,390	3,480	3,565	3,570	4,050	3,310	3,260	3,015	2,755	2,785
Gwyddorau Mathemategol	1,610	1,605	1,630	1,600	1,650	1,605	1,685	1,665	1,560	1,675
Peirianeg a Thechnoleg	10,475	9,805	10,075	9,945	9,560	9,590	10,205	10,010	9,605	9,290
Cyfrifiadura	5,360	5,165	5,400	5,585	6,135	7,735	9,115	9,795	9,755	9,715
Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio	1,910	2,050	2,110	2,135	2,215	2,315	2,445	2,500	2,490	2,635
Gwyddorau Cymdeithasol	9,120	9,875	10,490	10,645	11,490	14,200	16,485	15,140	14,730	15,135
Y Gyfraith	4,015	4,060	4,140	4,210	4,415	5,750	6,405	8,835	9,420	8,955
Busnes a Rheoli	19,860	17,110	16,590	15,280	16,015	19,045	20,890	22,710	26,670	25,100
Ieithoedd ac Astudiaethau Ardal	7,730	7,635	7,540	7,785	7,510	6,920	5,695	5,150	4,970	4,760
Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol	4,430	4,395	4,575	4,325	4,135	4,005	3,910	3,845	3,885	4,135
Addysg ac Addysgu	11,955	11,320	9,580	8,440	8,105	7,125	7,745	7,700	8,140	7,890
Astudiaethau Cyfunol a Chyffredinol	6,125	4,430	4,845	5,710	5,530	4,175	3,735	3,935	5,250	4,135
Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu	2,360	2,295	2,470	2,455	2,540	2,365	2,525	2,670	2,705	2,720
Dylunio, A'r Celfyddydau Creadigol a Pherfformio	8,095	7,975	7,905	8,090	8,210	7,585	7,040	6,830	6,545	6,155
Daearyddiaeth, Astudiaethau'r Ddaear ac Amgylcheddol	2,860	3,005	3,130	3,150	2,985	2,930	2,855	2,850	3,010	3,330
Cyfanswm	131,615	128,675	129,395	129,585	132,205	136,355	145,170	149,045	154,385	150,680

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA


Newid canrannol

Grŵp pynciau lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH)	2014/15 i 2015/16	2015/16 i 2016/17	2016/17 i 2017/18	2017/18 i 2018/19	2018/19 i 2019/20	2019/20 i 2020/21	2020/21 i 2021/22	2021/22 i 2022/23	2022/23 i 2023/24	2014/15 i 2023/24
